Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

# Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-2023

Diweddarwyd Mehefin 2019



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Mehefin 2019

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Rhagarweiniad** | **3** |
| | **Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin** | |
| Dechrau'n Dda | 1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd | **8** |
| | 2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw | **10** |
| | 3. Cefnogi a gwella cynnydd a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr | **12** |
| | 4. Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol | **14** |
| Byw'n Dda | 5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi | **18** |
| | 6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir | **20** |
| | 7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael | **22** |
| | 8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) | **24** |
| Heneiddio'n Dda | 9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel | **28** |
| | 10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio | **30** |
| | 11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin | **32** |
| Mewn Amgylchedd Iach, Diogel | 12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | **36** |
| | 13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth | **38** |
| | 14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | **40** |
| | 15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau | **44** |
| | **Atodiadau** | **46-57** |


## Y Newyddion Diweddaraf yn Gryno

1. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol gennym ar flwyddyn gyntaf y Strategaeth Gorfforaethol hon ym mis Hydref 2018
2. Rydym wedi adolygu'r Amcanion Llesiant uchod ac wedi ymgynghori yn eu cylch fel rhan o ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb ac wedi canfod bod cefnogaeth dda ar eu cyfer - Ionawr 2019
3. Mae Amcan Llesiant 3 wedi'i ailenwi er mwyn adlewyrchu'r pwyslais Cenedlaethol ar lwyddiant a llesiant pob dysgwr. Gweler Amcan Llesiant 3.
4. Pery'r Amcanion Llesiant eraill yr un peth ond ceir rhai diweddariadau i'w cynnwys (Gweler Atodiad 1).
5. Mae'r holl Gynlluniau Gweithredu wedi cael eu hadnewyddu.
6. Ym mis Chwefror 2019 mabwysiadodd y Cyngor gynnig ar gyfer Dyfodol Di-garbon (Gweler Amcan Llesiant 12)

# Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf

Ym mis Ionawr 2018, cyflwynodd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin ei ddyheadau allweddol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf – *'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf'.* Roedd y cynllun hwn wedi nodi nifer o brosiectau a rhaglenni allweddol y bydd y Cyngor yn ymdrechu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn ceisio gwella'n barhaus lesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn y sir.

O ystyried y nod hwn, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Gorfforaethol Newydd sy'n cydgrynhoi ac yn alinio ein cynlluniau presennol.

# Yr Heriau sy'n wynebu'r Cyngor


Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghori, cafodd Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017. Roedd yr asesiad yn rhoi sylw i gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Gaerfyrddin drwy adegau gwahanol mewn bywyd. Gellir gweld y canlyniadau allweddol a chopi o'r Asesiad yn **www.ysirgaragarem.cymru**

Wrth i'r Cyngor gynllunio ar gyfer y dyfodol, mae'n rhaid i ni ystyried nifer o heriau rydym yn eu hwynebu. Ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r heriau hyn, ond maent yn ffactorau y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth i ni ddatblygu, ac, mewn rhai achosion, rhaid i ni newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn gwneud pethau.

1. Datblygu economi ddeinamig yng nghyd-destun Brexit -
2. Mynd i'r Afael ag Argyfwng Hinsawdd
3. Gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
4. Galw a chymhlethdod cynyddol ar gyfer gwasanaethau
5. Disgwyliadau cynyddol o'r ddarpariaeth gan reoli cyllideb sy'n lleihau ar yr un pryd
6. Hinsawdd economaidd ac economi leol heriol
7. Cynyddu'r angen i gryfhau seilwaith digidol ac i gefnogi cynhwysiant digidol ar gyfer unigolion yn ogystal â'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat, gyda'r nod o ddatblygu ffyniant economaidd a gweithio'n ystwyth
8. Newid proffil demograffig y sir ac yn enwedig ei phoblogaeth sy'n heneiddio
9. Risgiau cynyddol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
10. Amddifadedd a thlodi cynyddol a mwy o anghyfartaledd rhwng cymunedau
11. Mwy o ddeddfwriaeth a rheolaeth gan Lywodraeth Cymru
12. Rheoli'r risgiau i'r gweithlu sy'n gysylltiedig â chyflymder y newid sy'n ofynnol gan y sefydliad

# Gwerthoedd Craidd y Cyngor

Wrth ddarparu'r strategaeth hon mae'n bwysig ein bod yn cynnal ein gwerthoedd craidd ym mhopeth a wnawn:-




# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
Mae'r cynllun strategol hwn yn pennu egwyddorion ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn amlinellu sut ydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau a sicrhau ein bod yn gweithredu ein hegwyddorion yn ymarferol. Amlinellir yr ymrwymiadau hyn o ran:

1. Rôl y cyngor sir fel cyflogwr;
2. Rôl y cyngor sir fel darparwr gwasanaethau;
3. Rôl y cyngor sir o ran hyrwyddo goddefgarwch, dealltwriaeth a pharch yn y gymuned ehhangach

Mae dyletswydd arnom o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i'r nodweddion gwarchodedig canlynol:-

- Oedran
- Hil
- Rhyw
- Anabledd
- Crefydd a chred
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth.

# Dod â Chynlluniau ynghyd

**Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hon yn cydgrynhoi'r gofynion a'r cynlluniau canlynol yn un ddogfen:-**

1. Mae'n cynnwys ein Hamcanion Gwella, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 (Gweler *Atodiad 2*)
2. Mae'n cynnwys ein Hamcanion Gwella, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Am y tro cyntaf yng Nghymru, ceir gweledigaeth a rennir a set o nodau i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Bwriad ein Hamcanion Gwella yw mwyhau ein cyfraniad at y rhain (Gweler *Atodiad 2*)
3. Mae'n cynnwys prosiectau a rhaglenni allweddol Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin am y 5 mlynedd nesaf, fel y nodir yn 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: *y 5 mlynedd nesaf'*

# Blaenoriaethau

Mae*'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf*' yn ei gwneud yn glir mai adfywio yw prif flaenoriaeth y Cyngor. Mae ein 15 o Amcanion Llesiant yn cwmpasu'r amrywiaeth eang o Wasanaethau sydd gan y Cyngor er mwyn sicrhau llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae dyraniad adnoddau i gyflawni'r amcanion hyn wedi'i amlinellu yn *Atodiad 3.*

Gellir crynhoi Gweledigaeth y Cyngor fel a ganlyn:-

**'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'**




## Amcanion Llesiant

**1.** Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.

**2.** Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

**3.** Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr.

**4.** Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**5.** Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

**6.** Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.

**7.** Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

**8.** Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).

**9.** Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.

**10.** Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.

**11.** Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

**12.** Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

**13.** Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.

**14.** Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.

**15.** Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Wedi'i adael yn fwriadol wag

# Dechrau'n Dda



# Amcan Llesiant 1
## Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd.
- Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i iechyd a llesiant hirdymor
- Mae plant sy'n cael plentyndod llawn straen sydd o ansawdd gwael yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael a datblygu problemau iechyd hirdymor wrth iddynt dyfu'n oedolion.
- Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd.
- Mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r effaith niweidiol y gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn enwedig os oes sawl achos, ei chael ar lesiant ac iechyd corfforol a meddwl, perthnasoedd ag eraill, cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau ffyniant wrth dyfu'n oedolyn.
- Mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy tebygol o fod wedi bod yn agored i **Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwael yn y tymor hir cyn dechrau derbyn gofal.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod effaith niweidiol ar iechyd a llesiant gydol oes.
- Mae 47 o bob 100 o oedolion yng Nghymru wedi cael o leiaf un Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod ac mae 14 wedi cael 4 neu fwy. Mae plant sy'n cael plentyndod llawn straen sydd o ansawdd gwael yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidio iechyd. *(Arolwg Cenedlaethol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru)*
- Mae plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith yn fwy tebygol o gael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae 10.2% o blant Sir Gaerfyrddin yn byw ar aelwydydd heb waith, sy'n is na ffigwr 2016 o 12.3% ac ychydig is ar hyn o bryd na'r ffigwr ar gyfer Cymru (12.6%) a'r DU (10.9%).
- Ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin mae 94 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, mae 192 yn Blant sy'n Derbyn Gofal, ac mae 731 o blant yn cael gofal a chymorth.*(ar 31/12/18).*

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a sicrhau eu datblygiad drwy gydol eu plentyndod cynnar.
- Mae angen i ni feithrin cydnerthedd yn erbyn profiadau niweidiol.
- Byddwn yn gweithredu argymhellion Adolygiad Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu – Addysg a Phlant o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant a chyfleoedd chwarae.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

**A.** Byddwn yn **cefnogi teuluoedd** drwy:

- **a.** weithio gyda'n gilydd i leihau nifer y plant sy'n cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- **b.** hyrwyddo bondio ac ymlyniad er mwyn cefnogi perthnasoedd rhiant-plentyn da a chadarnhaol.
- **c.** sicrhau bod rhieni a'r sawl sy'n gadael gofal yn meddu ar fwy o'r sgiliau sy'n angenrheidiol i osgoi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn amgylchedd y cartref, ac yn hybu datblygiad llesiant a chydnerthedd cymdeithasol ac emosiynol yn y plentyn.
- **d.** clustnodi achosion posibl lle mae plant eisoes yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu'n byw mewn amgylchedd niweidiol, ac ymyrryd ynddynt.
- **e.** parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad mewn ysgolion er mwyn sicrhau eu *bod yn dod yn ysgolion ymwybyddiaeth ymlyniad* a'u bod yn gallu bodloni anghenion llesiant emosiynol plant agored i niwed.


**B.** Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd ym mhob Ysgol yn Sir Gaerfyrddin â mynediad i wasanaethau cymorth integredig priodol – e.e. – Seicoleg Addysg a Phlant, cymorth Nam ar y Synhwyrau a staff ymgynghorol Cynhwysiant arbenigol.

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy** ***(PAM/029)***

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae sefydlogrwydd lleoliadau ein plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol, gyda gostyngiad o 6% yn y ganran a symudodd leoliad 3 gwaith neu fwy, **o 14.9%** ar 31 Mawrth 2016 **i 8.8%** ar 31 Mawrth 2018.

**% y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth 2017 sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn**




| | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gar | 11.7% | 11.7% | 14.9% | 9.2% | 8.8% |
| Cymru | 8.3% | 9.0% | 9.8% | 9.8% | |

## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

Mae'r **rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf** ddiwygiedig, a roddwyd ar waith o 1 Ebrill 2018, yn cynnwys 13 prosiect o dan dri maes ffocws:

**Cymorth Rhianta**

- **Cymorth Rhianta** (caffael - Gweithredu dros Blant)
- **DASH -** Elusen sy'n ymdrin â Cham-drin Domestig (caffael -CDAS)
- **Cymorth Cymunedol a Gwirfoddoli** (caffael - Home Start)
- **Canolfannau Teulu** (wedi'u heithrio rhag caffael - Plant Dewi)
- **Canolfannau Plant Integredig** (mewnol - CSC)
- **Gweithwyr Cefnogi Teuluoedd a Chymorth Seicolegol** (mewnol - CSC)
- **Gweithwyr Ymgysylltu â Theuluoedd** (mewnol - CSC)

**Cymorth i Bobl Ifanc**

- **Gweithwyr Ieuenctid Ôl-16** (mewnol - CSC)
- **Cymorth Ieuenctid 10-18 oed** (mewnol - CSC)
- **Gofalwyr Ifanc** (mewnol - CSC)
- **Tîm Iechyd Ieuenctid** (wedi'i eithrio rhag caffael - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)

**Cymorth Anabledd**

- **Clybiau Chwarae i'r Anabl** (mewnol - CSC)
- **Tîm Camau Bach** (mewnol - CSC)

Bydd yn ofynnol i'r rhaglen newydd weithio tuag at atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar y rheiny sydd wedi bod yn agored iddynt eisoes.

Enghraifft o ddarparu gwasanaethau; Mae'r Canolfannau Plant Integredig yn wasanaethau ar sail lleoliadau sy'n rhoi cymorth i blant rhwng 0 ac 12 oed a'u teuluoedd yn eu cymunedau lleol sef Morfa, Llwynhendy a Felin-foel. Mae'r canolfannau'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd i'w helpu i fod yn rhieni cadarnhaol, i gael perthnasoedd cadarn, ac i wella cydnerthedd, yn cynnwys; sesiynau chwarae Bwmp, Babi a theulu (0-3 oed), sesiynau clwb Chwarae (4-6 oed); sesiynau chwarae mynediad agored (7-11 oed); cyrsiau Iaith a Chwarae/Rhif a Chwarae heb eu hachredu wedi'u darparu; Cyrsiau rhianta wedi'u trefnu, cyrsiau cyn-cyflogaeth wedi'u hachredu, sesiynau ffordd iach o fyw, cyrsiau tylino babanod, a digwyddiadau ymgynghori cymunedol.




**Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn.



# Amcan Llesiant 2
## Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae amcanestyniadau yn awgrymu y bydd cynnydd yn y dyfodol o ran tueddiadau gordewdra yn ystod plentyndod, gyda'r ffigurau'n dangos mai bechgyn rhwng 2 a 15 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf.
- Nododd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mai chwarae y tu allan oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd i blant ond canfu hefyd fod 31% o rieni yn aml yn poeni ac weithiau'n ei chael hi'n anodd gadael eu plentyn allan i chwarae. Roedd hynny'n bennaf o achos traffig ffyrdd.
- Roedd asesiadau gweithgarwch o ran plant ysgol gynradd yn dangos mai bod yn gorfforol egnïol oedd y ffactor pwysicaf ond un ar gyfer llesiant cadarnhaol plant 6 – 11 oed; cysylltiadau â pherthnasau a ffrindiau oedd y pwysicaf.
- Mae byw bywydau iach yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial a gwireddu eu dyheadau o ran addysg.
- Mae arferion a sefydlir yn gynnar mewn bywyd yn aros gyda phobl i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Sir Gaerfyrddin sydd â'r lefelau gordewdra yn ystod plentyndod 9fed uchaf (3ydd uchaf o'r blaen) yng Nghymru, ac mae 29.4% (560) o blant bach 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru sef 27.1%.
- Trwy ymgysylltu ag ysgolion cynradd, clustnodwyd bod cysylltiad cryf rhwng gweithgarwch corfforol a chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored, a theimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd hwnnw.
- Mae anhwylderau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc yr un mor gyffredin, ac mae 1 ym mhob 10 plentyn a pherson ifanc rhwng pump ac un deg chwech oed yn dioddef o anhwylder iechyd meddwl y mae modd ei ddiagnosio. Rhwng un a deuddeg oed, mae 1 ym mhob 15 person ifanc yn hunan-niweidio'n fwriadol.

*Ffynhonnell: - Ein Hiechyd, Ein Dyfodol, Cynllun Tymor Canolig Integredig Interim Hywel Dda 2016/17 i 2018/19 (tudalen 56)*

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant ar draws Sir Gaerfyrddin: yn bwyta'n iach, yn gorfforol egnïol, ac yn cadw'n iach yn feddyliol.
- Byddwn yn mynd i'r afael ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn ei adolygiad o'r Amcan Gwelliant hwn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae angen i ni fesur gweithgarwch drwy ysgolion.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

**A.** Byddwn yn cynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd **gweithgarwch corfforol** sydd ar gael i blant, ac yn targedu'r rheiny sy'n wynebu risg uwch o anweithgarwch.

**B.** Byddwn yn **mynd i'r afael ag iechyd meddwl** gan gynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

**C.** Byddwn yn **hyrwyddo bwyta'n iach**, gan gynnwys trwy brydau ysgol, y *cynllun Ysgolion Iach* a'r *Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol.*

**D.** Byddwn yn **cynyddu ymwybyddiaeth** o ffyrdd iach o fyw drwy'r cynllun Ysgolion Iach.


**E.** Byddwn yn parhau i ddatblygu, hyrwyddo a gweithredu'r **Rhaglen Dechrau'n Deg.**

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Gordewdra yn ystod plentyndod** ***(Rhaglen Mesuriadau Plant GIG)***

Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn aml yn parhau i fywyd fel oedolyn, gan arwain at broblemau iechyd cysylltiedig fel diabetes math 2, clefyd yr afu, cyfraddau uwch o glefyd y galon a rhai mathau o ganser.


**Plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n order tuedd dros y 3 mlynedd diwethaf**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 30.7 | 29.6 | 29.4 | 26.6 |
| Cymru | 26.2 | 26.2 | 27.1 | 26.4 |

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud




Mae potensial enfawr gan nofio a gweithgareddau dŵr i gael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant ein poblogaeth o ganlyniad i'r mynediad cymharol hawdd i gyfleusterau a'u hygyrchedd ar hyd oes gyfan. Byddwch yn gweld sut ydym wedi adeiladu ac arddangos ein llwybr cynhwysfawr uchod – gan anelu at ddarparu cyfleoedd gydol oes, e.e. trwy ehangu'n ddiweddar raglen strwythuredig ein plant i grwpiau oedran iau drwy gynllun 6 cham 'Splash' ac amrywio'r opsiynau ymhell y tu hwnt i nofio, gan gynnwys cysylltiadau penodol â gymnasteg/trampolinio a deifio.




**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

## Amcan Llesiant 3
## Dechrau'n Dda - Cefnogi a gwella cynnydd a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon.
- Rydym am wella canlyniadau i bobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes, i'w galluogi i ffynnu yn yr 21ain Ganrif ac ym myd gwaith.
- Mae ymchwil gan *Y Sefydliad Addysg* yn awgrymu bod mynychu cyn-ysgol dda ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol (Taggart, 2015)
- Mae ein gwasanaeth wedi ymroi o hyd i'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen strategol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru 'Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol.'

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Ar hyn o bryd mae bwlch cenedlaethol (gan gynnwys yn Sir Gaerfyrddin) rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn gymwys. Mae'r agwedd hon ar ein perfformiad a'n cyflawniad ar ddiwedd y cyfnod allweddol yn dal yn her ac achos gofid i ni.
- Mae gennym ysgolion y mae angen iddynt wella mewn meysydd penodol, fel y cydnabuwyd trwy'r system Gategoreiddio Genedlaethol* (ar gyfer 2018 mae 21% o'r ysgolion cynradd wedi'u gosod yn y 'Categori Cymorth Ambr' ac mae 1% o'r ysgolion cynradd wedi'u gosod yn y 'Categori Cymorth Coch').
  *Pedair lefel o 'Gategori Cymorth' yn bodoli – Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch. Mae'r holl ysgolion uwchradd wedi'u graddio ar hyn o bryd yn y Categori Cymorth Gwyrdd neu Felyn.
- Mae canlyniadau PISA 2015 (Y Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr), sef "*y meincnod rhyngwladol cydnabyddedig o hyd ar gyfer sgiliau*" yn ôl Kirsty Williams, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, yn dal i ddangos bod Cymru ar ôl ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Byddwn yn parhau i wella'r cynnydd, y llesiant a'r canlyniadau ymhellach ar gyfer pob dysgwr (gan roi pwyslais ar y sawl sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim ac ar ddysgwyr agored i niwed - gweler hefyd **Amcan Llesiant 5 Trechu Tlodi.**)

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

**A.** Byddwn yn sicrhau y bydd pwyslais di-baid **ar wella cynnydd, llesiant a chanlyniadau disgyblion** yn achos pob plentyn a pherson ifanc ar draws pob cyfnod dysgu (gan ganolbwyntio ar ddysgwyr agored i niwed a dysgwyr sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim) yn unol â gweledigaeth a nodau 'Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol.'

**B.** Byddwn yn parhau i **wella presenoldeb mewn ysgolion** a llesiant dysgwyr.

**C.** Byddwn yn darparu **ysgol ragorol yn y lle cywir** drwy:

a. Gwella cyflwr, addasrwydd ac effeithlonrwydd ein rhwydwaith ysgolion o ran adnoddau, drwy'r *Cynllun Moderneiddio Addysg.*

b. Datblygu *Cwricwlwm Lleol* atyniadol, perthnasol a diledryw yn unol â fframwaith clir o ganllawiau cenedlaethol, a fydd yn paratoi ein plant a'n pobl ifanc yn llawn ar gyfer heriau a chyfleoedd bywyd fel oedolyn.

**D.** Byddwn yn parhau i **ddatblygu'r gweithlu a chynllunio olyniaeth** drwy:

a. Datblygu a chefnogi system ysgolion hunanwella gydweithredol i sicrhau arweinyddiaeth a darpariaeth o safon i bob dysgwr.


b. Buddsoddi mewn datblygu sgiliau ein hathrawon a'n staff cymorth ymhellach.

**E.** Byddwn yn parhau i **ddatblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau i gyd**, a thrwy hynny'n anelu at sicrhau bod pob plentyn yn hyderus ddwyieithog. Gall disgyblion gyrraedd eu potensial o ran ennill sgiliau i fod yn ddinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, y gweithle a'r tu hwnt.

## Mesur Llwyddiant Allweddol

| **Cyrhaeddiad Addysgol - Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio** (disgyblion Blwyddyn 11) *(cyf. i'w gadarnhau) (9 canlyniad gorau'r disgyblion yn cynnwys Saesneg/Cymraeg, Mathemateg–Rhifedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth)* |
|---|

Y sgôr gyfartalog yn seiliedig ar y 9 canlyniad arholiad gorau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn ystod 2018/19 (Blwyddyn Academaidd 2017/18) yw 363.1 lle roedd gan y merched sgôr gyfartalog o 375.2 a'r bechgyn 352.5. Hon yw'r gyfradd 6ed uchaf yng Nghymru.




## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

**Wrth geisio cyflawni ein hamcanion, rydym wedi rhoi tri fforwm strategol ychwanegol ar waith mewn partneriaeth â'n hysgolion:**

1. **Mynediad at Fforwm Strategol Mynediad i Addysg**
2. **Fforwm Strategol Cwricwlwm a Llesiant**
3. **Fforwm Strategol y Gwasanaethau Addysg**

**Bydd y strwythur diwygiedig hwn yn gwella ein gwaith cydweithredol gydag uwch-arweinwyr ysgolion o bob sector, gan sicrhau dull colegaidd tuag at wella drwy strategaethau y cytunwyd arnynt i gefnogi ein holl dasgau a chamau gweithredu penodol.**

**Mae dyletswydd ar bob fforwm i –**

- Gweithredu fel grŵp ymgynghorol i helpu i ddatblygu a chyd-greu strategaeth newydd
- Cynnig meysydd eraill lle mae angen ffocws strategol a datblygiad pellach
- Peilota mentrau priodol
- Cynghori ar y modd y caiff strategaeth ei rhoi ar waith
- Cynghori ar flaenoriaethu adnoddau
- Monitro a gwerthuso cynnydd
- Cynrychioli cydweithwyr a lledaenu gwybodaeth i eraill

Caiff cynnydd a chanlyniadau pob Fforwm eu hadrodd, eu gwerthuso a'u hadolygu drwy ein rhwydweithiau Penaethiaid a Llywodraethwyr, ynghyd â'n Timau Rheoli Corfforaethol ac Adrannol strategol mewnol.




Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol
Y Cynghorydd Glynog Davies

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

# Amcan Llesiant 4

## **Dechrau'n Dda -** Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant (EET) yn lleihau effaith tlodi a'r gost ehangach i gymdeithas o wasanaethau cymorth, dibyniaeth ar fudd-daliadau a throseddu.
- Mae mwyhau cyfleoedd bywyd pobl ifanc yn hanfodol, gan sicrhau bod cynifer â phosibl yn gallu camu ymlaen i'r chweched dosbarth, i Golegau Addysg Bellach, i gael prentisiaethau, neu i gael hyfforddiant neu waith.
- Mae'n galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mewn byd sy'n prysur grebachu, mae cynnydd cyson technoleg ac awtomeiddio yn golygu bod yn rhaid i bobl ifanc gael yr holl adnoddau ar gyfer heriau a chyfleoedd bywyd gwaith yn yr 21ain ganrif. Ein huchelgais yw cael ein dysgwyr a'n pobl ifanc i fod yn barod ar gyfer byd gwaith a bod yn rhan o economi lle mae'r cyflog a'r sgiliau'n uchel ac i allu cystadlu'n llwyddiannus mewn adfywio rhanbarthol, a chyfrannu'n frwd ato, os byddant yn dewis byw a gweithio yn ne-orllewin Cymru.
- Canran y disgyblion Blwyddyn 11 yn Sir Gaerfyrddin oedd yn NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) yn 2017 oedd 1.4% (27 disgybl), sef lleihad o 2.1% o gymharu â 2016 (40 disgybl). Canran y disgyblion Blwyddyn 13 yn Sir Gaerfyrddin oedd yn NEET oedd 3% (20 disgybl) yn 2017, sef cynnydd o 2.0% (14 disgybl) yn 2016.
- Mae Sir Gaerfyrddin yn y trydydd safle ar ddeg (o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru) ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 oedd yn NEET ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan o 1.6%.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn cael y cyfleoedd gorau posibl i astudio, hyfforddi, ac ennill cyflogaeth werth chweil yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.
- Byddwn yn sicrhau nad yw'r holl ddysgwyr agored i niwed gan gynnwys y rheiny ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu heithrio rhag rhaglenni.
- Mae angen i ni barhau i weithredu chwe elfen Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys:
  Clustnodi pobl ifanc y mae perygl y byddant yn NEET; Darparu broceriaeth a chymorth cydgysylltiedig i bobl ifanc; Gwella cymorth tracio a phontio; Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc; Cryfhau sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth; Sicrhau ein bod yn atebol dros ein gweithredoedd.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

A. Byddwn yn adeiladu ar bartneriaethau presennol â busnesau lleol a'r sector cyhoeddus drwy ***Adolygiad Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin*** er mwyn ffocysu galwadau am sgiliau a chyflogadwyedd y rheiny sy'n newydd i'r farchnad lafur a'r rheiny sydd ynddi'n barod yn Sir Gaerfyrddin, i sicrhau y diwellir galw'n lleol ac yn rhanbarthol. *Gweler hefyd Gynlluniau Gweithredu Amcanion Llesiant 5 + 6 ynghylch yr Hwb a'r Bartneriaeth Ddysgu* Ranbarthol. Byddwn yn sicrhau bod y cyfleoedd a gynigir gan y cwricwlwm newydd i Gymru yn cael eu plethu yng nghwricwlwm lleol Sir Gaerfyrddin gydag anghenion a bylchau'r 21ain ganrif o ran sgiliau yn cael ystyriaeth lawn.


B. Byddwn yn gweithredu chwe Cham y ***Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*** uchod.

C. Byddwn yn cyflwyno elfennau lleol **prosiectau *Cronfa Gymdeithasol Ewrop*** *Cynnydd* a *Cham Nesa* (cyllid gwarantedig tan 2018-2020) sy'n cynorthwyo pobl ifanc i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth yn ystod y cyfnod addysg ôl-16, gan weithio hefyd gyda darpariaeth cwricwlwm amgen i gael gwasanaethau eraill yn lle'r rhai a gynigir drwy Brosiectau Cynnydd a Cham Nesa, ar ôl Brexit o 2020 ymlaen.HYPERDDOLEN " mailto:Fraud@sirgar.gov.uk"

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Nifer y rhai sy'n gadael nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) Blwyddyn 11** *(PAM/009)* **a Blwyddyn 13** *(5.1.0.2)*

**Data Cyrchfannau ar gyfer Disgyblion B11 Sir Gaerfyrddin (Blwyddyn Academaidd 2016-17)**




## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

**Sut mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (VAP) yn helpu i gefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET?**
Mae'r VAP yn fenter o fewn Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Mae'n rhan annatod o'r broses o nodi'n gynnar y rhai sydd mewn perygl mawr o fod yn NEET ac mae'n cynnwys yr ysgol ac ystod o asiantaethau.

**VAP**

- Clustnodir disgyblion agored i niwed drwy system sgorio ar sail data disgyblion; ymddygiad, presenoldeb, cyrhaeddiad ac ati.
- Mae disgyblion a gaiff sgôr Coch neu Ambr yn cael eu trafod yn y cyfarfod VAP yn yr ysgol berthnasol.
- Yng nghyfarfodydd Ysgol VAP, mae staff yn defnyddio eu gwybodaeth am y person ifanc a chyd-destun y teulu i ddisgrifio eu problemau presennol ac i dynnu sylw at bryderon sy'n ychwanegu at sgôr VAP gyfannol uwch.

**Cyfarfod VAP**

- Mae cyfarfodydd VAP yn canolbwyntio ar sut y mae pob person ifanc yn agored i niwed, pa ymyriadau sydd wedi cael eu cynnig, beth sydd wedi gweithio, beth arall gellid ei gynnig, a pha asiantaethau sy'n ymwneud â hyn.
- **Gyrfa Cymru -** diweddariad ar y cam nesaf ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 megis pa gwrs coleg neu pa ddarpawr hyforddiant maent wedi gwneud cais amdano neu wedi cael ei dderbyn ar ei gyfer.
- **Coleg Sir Gâr -** cynrychiolwyr yn hyrwyddo'r wythnos blasu ym mis Chwefror gan gynnig amrywiaeth o fyesydd cwricwlwm gwahanol a chynnig cymorth trosglwyddo o'r coleg yn ystod gwyliau'r haf.
- **Cynnydd** - yn cynnig gweithgareddau ymgysylltu fel mentora cadarnhaol a ffrind beirniadol, gweithgareddau ymarferol fel amlgyfryngau, STEM, awyr agored, chwaraeon a ffitrwydd, a ffocws ar gam nesaf cadarnhaol ar gyfer disgyblion blwyddyn 11, sy'n gallu cynnwys cymorth trosglwyddo a mynediad i gymwysterau ychwanegol. Mae elfennau eraill o gymorth Cynnydd yn cynnwys llesiant a lleoliadau gwaith sy'n paratoi pobl ifanc i fod yn barod ar gyfer gwaith.

**Cam dilynol**

- Os nad oes gan berson ifanc gynlluniau ar ddiwedd blwyddyn 11 a'i fod yn debygol o fod yn NEET, caiff atgyfeiriad ei wneud i'r **tîm gwaith ieuenctid ar ôl 16 oed** ac i **Cam Nesa**.



**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

Wedi'i adael yn fwriadol wag


# Byw'n Dda



# Amcan Llesiant 5

## Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau.
- Gall tlodi fod yn rhwystr o ran cyfrannu'n llawn at gymdeithas, ac yn rhy aml o lawer mae'n brofiad sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n peri bygythiad sylweddol i lesiant cadarnhaol yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n cael eu magu ar aelwydydd heb waith yn cael canlyniadau sy'n gyson waeth o ran cyrhaeddiad addysgol a gallu gwybyddol na phlant eraill y mae eu rhieni wastad yn gweithio.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Yn ôl y diffiniad, gellir dweud bod 35.5% (28,881) o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn **byw mewn tlodi**, y 13eg uchaf yng Nghymru (Cyfartaledd Cymru yw 33.6%).
  Diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi yw pan fo*"incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain". Mae hyn yn golygu aelwyd lle mae'r incwm yn* ***llai na £18,868*** *y flwyddyn (2018 - 60% o £31,446)*

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen inni ***atal tlodi*** – Mae cydberthynas gref rhwng cael eich geni'n dlawd a wynebu oes o dlodi ac mae modd atal llawer o'r ffactorau sy'n sbarduno tlodi yn ystod plentyndod ac yn ddiweddarach mewn bywyd os cânt eu nodi ac os eir i'r afael â nhw yn amserol. Felly gall darparu ymyriadau cynnar, cyfannol a dargedwyd helpu i leihau'r tebygolrwydd o dlodi yn ein cymunedau.
- Mae angen i ni ***helpu pobl i gael gwaith*** – gwaith yw un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol ac effeithiol o drechu tlodi yn ei holl ffurfiau. Mae'r gwaith yn darparu incwm a chyfleoedd o ran datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymenyddol yn ogystal â gwell iechyd a llesiant.
- Mae angen i ni ***wella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi*** drwy gefnogi'r rheiny sy'n dlawd a gwella mynediad i gymorth ar gyfer cynnal safonau byw sylfaenol.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

A. Bydd ein gwasanaethau addysg a phlant yn gweithio i ***atal tlodi*** drwy ddarparu rhaglenni ymyrraeth gynnar allweddol megis Dechrau'n Deg a'r Tîm o Amgylch y Teulu, ac mae llythrennedd ariannol ar y cwricwlwm ysgol. Yn ogystal bydd gwasanaethau megis tai yn cymryd ymagwedd fwy rhagweithiol, ataliol at fynd i'r afael â'r hyn sy'n sbarduno tlodi er mwyn atal materion megis digartrefedd a thlodi tanwydd.

B. Byddwn yn ***helpu pobl i gael gwaith*** drwy feithrin eu hyder a'u sgiliau drwy'r rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy, ac yn targedu cymorth i'r rheiny sydd bellaf o'r farchnad lafur e.e. rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). Byddwn yn parhau i ymestyn model Hwb fel siop un stop i gael cyngor a chymorth am gyflogaeth.

C. Byddwn yn ***gwella bywydau'r rhai sy'n byw mewn tlodi*** drwy hyrwyddo a chefnogi gwell llythrennedd ariannol drwy wasanaethau fel safonau masnach a budd-daliadau tai. Byddwn hefyd yn cyflwyno mentrau i gefnogi grwpiau allweddol sy'n agored i niwed gan gynnwys Rhaglen Gwella'r Gwyliau Haf a'r Apêl Blwch Teganau a Hamper.

   **Tlodi Gwledig** - *gweler hefyd Amcan Llesiant 6* - Creu mwy o swyddi a thwf ar draws y sir; Rhan C - Drwy nodi a mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu cymunedau gwledig.

## Mesur allweddol

**Aelwydydd sy'n byw mewn Tlodi** *(Data 'PayCheck' CACI)*

| **Ffigurau Incwm Aelwydydd** *Fynhonnell: CACI's 'PayCheck' data* | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi** | **2014** | | **2015** | | **2016** | | **2017** | | **2018** | |
| | **Sir Gaerfyrddin** | **Cymru** | **Sir Gaerfyrddin** | **Cymru** | **Sir Gaerfyrddin** | **Cymru** | **Sir Gaerfyrddin** | **Cymru** | **Sir Gaerfyrddin** | **Cymru** |
| | 29,956 (37.1%) | 446,586 (33.6%) | 29,086 (36.3%) | 459,283 (35%) | 29,020 (35.9%) | 460,322 (34%) | 28,223 (35.0%) | 450,616 (33%) | 28,881 (35.5%) | 456,971 (33.6%) |

Yn ôl y diffiniad, gellir dweud bod 35.5% o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn **byw mewn tlodi,** y 13eg uchaf yng Nghymru (Cyfartaledd Cymru yw 33.6%).
*Diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi yw pan fo "incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain". Mae hyn yn golygu aelwyd lle mae'r incwm yn **llai na £18,868** y flwyddyn (2018 - 60% o £31,446)*

## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

### Rhaglen Ymgysylltu Cymunedol yn Ward Ty-isa



Yn ystod 2018 mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda thrigolion ward Ty-isa yn Llanelli mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau allweddol i ymgymryd â rhaglen ymgysylltu cymunedol fawr. Roedd y rhaglen o'r enw 'planning for real' yn ceisio cael sylwadau a syniadau gan drigolion lleol i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllun adfywio ar gyfer yr ardal. Mae'n golygu y bydd gan breswylwyr, tenantiaid a busnesau gyfle go iawn i helpu i gynllunio ar gyfer newidiadau a gwelliannau a fydd yn effeithio ar eu dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Campbell: *"Rydym yn gwybod bod gan Dy-isa broblemau ond rydym hefyd yn cydnabod bod ysbryd cymunedol gwych yn yr ardal. Mae pobl wir eisiau gweld yr ardal yn gwella ac rydym eisiau i bobl fod yn rhan o'r newid. Mae potensial go iawn i wneud rhywbeth ac rydym yn gyffrous am yr hyn sydd o'n blaenau."*



**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cyng. Cefin Campbell**

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 6
## Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni.
- Mae cynyddu cyflogadwyedd yn hanfodol i drechu tlodi a lleihau anghyfartaledd ac yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Ym mis Mawrth 2018, o blith gweithlu Sir Gaerfyrddin o 73.7%, roedd 59% mewn swyddi yn y maes proffesiynol/technegol/crefftau medrus – tipyn *is* na chyfartaledd Cymru o 63%, tra bo 41% mewn swyddi yn y maes gofal/hamdden/gofal cwsmeriaid/gweithredu peiriannau – tipyn *uwch* na chyfartaledd Cymru o 37%. Hefyd gweler Amcan Llesiant 4 - Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Ym mis Medi 2018, roedd cyfanswm nifer y bobl sy'n ddi-waith/sy'n economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr) yn y grŵp oedran 16-64 oed yn 21.3% o gyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20.0%.
- Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â bwlch Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) sy'n lledaenu rhwng GYG y DU a GYG Cymru;
  Mae'r cyfanswm GYG yn Sir Gaerfyrddin yn 4.8% o gyfanswm GYG Cymru, sy'n gyfran gymharol uchel. Fodd bynnag, mae'r GYG fesul swydd yn isel (£44,833), sef 18fed allan o 22 awdurdod, sy'n awgrymu cynhyrchiant isel.
  *GYG yw mesuriad o werth y cyflogau a'r elw o nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn yr ardal.*

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni greu economi hynod wybodus a chreadigol trwy fwyhau lleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol, a hynny drwy greu swyddi a darparu prentisiaethau o safon, cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith, er mwyn sicrhau bod y gweithlu bob amser yn gymwys ac yn meddu ar y sgiliau priodol er mwyn wynebu'r dyfodol
- Mae angen i ni ddatblygu statws Sir Gaerfyrddin yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe (Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot) a sicrhau ei bod yn sir hyderus, uchelgeisiol â chysylltiadau.
- Mae angen i ni ddal ati i fuddsoddi yn ein seilwaith gwledig lleol, gan gynnwys trafnidiaeth er mwyn denu busnesau, twristiaeth/hamdden i'r sir er mwyn hyrwyddo gweithgarwch a thwf economaidd trwy greu gwell cysylltiadau a diwydiant twristiaeth cryf (gweler Amcan Llesiant 13 *Gwella Seilwaith a Chysylltedd y Priffyrdd a Thrafnidiaeth*)
- Mae angen inni barhau i fuddsoddi yn ein 3 prif dref i'w hadfywio'n strategol, mewn trefi marchnad gwledig ac mewn safleoedd cyflogaeth strategol, ynghyd â pharhau i gefnogi twf busnesau.
- Mae angen inni gefnogi *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol: Cynllun Gweithredu Economaidd gan Lywodraeth Cymru*
- Monitro effaith Brexit ar economi Sir Gaerfyrddin, fel y gallwn liniaru unrhyw broblemau a manteisio ar bob cyfle a allai godi
- Byddwn yn cyhoeddi argymhellion i'w gweithredu, ar ran Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin.
- Byddwn yn cefnogi'r busnesau bob dydd hynny sydd o'n cwmpas ym mhob man ac sy'n sylfaen i'n heconomi.


### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

**A.** Yn rhanbarthol, trwy gydlynu a chyflwyno Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Sir Gaerfyrddin, ac, yn benodol, prosiectau Sir Gaerfyrddin – Yr Egin a'r Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant
**B.** Yn lleol, trwy gyflawni 6 Chynllun Ardal y Strategaeth Drawsnewidiol gan dargedu ardaloedd trefol, arfordirol a gwledig Sir Gaerfyrddin
**C.** Drwy nodi a mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu cymunedau gwledig
**D.** Drwy ddatblygu dysgu, sgiliau, cyflogadwyedd ac annog ysbryd o entrepreneuriaeth ledled y sir i gefnogi busnesau newydd yn y sir (Y Bartneriaeth Sgiliau a Dysgu Ranbarthol)
**E.** Drwy sicrhau cynlluniau clir ar gyfer cefnogi busnesau er mwyn cefnogi unrhyw oblygiadau yn sgil Brexit.
**F.** Drwy gefnogi twf economaidd lleol

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Tâl wythnosol gros (Canolrifol)** *(Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion)*

Mae cynnydd cyson yn yr enillion amser llawn wythnosol gros canolrifol yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghymru ers 2010, ond mae'n ymddangos bod y cynnydd yn digwydd yn fwy llyfn a di-dor yng Nghymru.




| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 443.8 | 429.2 | 449.6 | 489.6 | 504.5 | 464.8 | 494.5 | 517.8 | 511.4 |
| Cymru | 456.2 | 455.1 | 454.9 | 475.3 | 480.0 | 487.6 | 499.2 | 505.7 | 518.6 |

## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud i helpu

COALTOWN® COFFEE ROASTERS

### Y gwneuthurwyr coffi a ysbrydolwyd gan dreftadaeth Cymru



Gall adfywio economaidd gael ei ysbrydoli gan ffynonellau anarferol. Treftadaeth lofaol Rhydaman sydd wraidd enw ac uchelgais *Coaltown Coffee.* Mae sylfaenwyr y cwmni yn cynllunio ar gyfer dyfodol disglair diolch i'r math newydd hwn o 'aur du'.

Pan aeth **Scott James** a'i dad, Gordon, ati i ddechrau eu busnes rhostio coffi eu hunain yn y garej gartref, go brin bod neb wedi rhagweld y llwyddiant oedd i ddilyn. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, ac mae Coaltown Coffee Roasters bellach yn cyflenwi 160 o gaffis, bwytai a siopau ledled De Cymru a'r tu hwnt; yn ogystal â manwerthwyr cenedlaethol - gallwch hyd yn oed brynu eu ffa Arabica wedi'u tostio yn Selfridges. *"Mae wedi bod yn anhygoel ac rydym wedi bod yn lwcus dros ben o gael cwsmeriaid mor deyrngar,"* meddai Scott, sy'n 23 oed, gan fod y busnes wedi symud yn ddiweddar i Rostfa mewn warws 3,000 troedfedd sgwâr yn Rhydaman.

Datblygwyd y warws drwy ein Cronfa Datblygu Eiddo gan y Datblygwr Eiddo lleol, Dolawen Cyf., a chafodd yr adeilad ei brydlesu i Coaltown - gan gadw popeth yn lleol.
Drwy sefydlu'r Rhostfa, bwriad Scott oedd dod â diwydiant yn ôl i'w dref enedigol. Mae'r holl goffi yn cael ei rostio a'i becynnu yn y Rhostfa, lle mae pobl leol yn cael eu cyflogi. Hefyd mae lle hyfforddi pwrpasol yn y Rhostfa ar gyfer cleientiaid cyfanwerthu ac ar gyfer Cyrsiau Barista Cyhoeddus.




Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol
Y Cynghorydd Emlyn Dole (Arweinydd)

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

# Amcan Llesiant 7
## Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn hybu **iechyd a llesiant,** gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- Mae cartrefi fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn dda i **Bobl a'r Amgylchedd -** bydd yr ynni a ddefnyddir yn y cartref yn llai, gan gael effaith sylweddol ar leihau costau tanwydd i'r preswylwyr. Bydd hefyd yn cael effaith sylweddol ar leihau llygryddion yn yr atmosffer a lliniaru tlodi tanwydd yn ein cymunedau.
- Mae'n dda i'r **Strwythur Cymdeithasol** - mae codi tai fforddiadwy yn y mannau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol.
- Mae'n dda i'r **Economi** - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad i'w gweithlu yn hawdd. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eu cymuned.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Dywedodd pobl wrthym yn ystod ein hymgynghoriad ar dai fforddiadwy yn 2015 bod angen i ni:
  - ✓ Targedu cymorth lle mae ei angen fwyaf, mewn ardaloedd trefol a gwledig, trwy ddarparu tai mwy fforddiadwy i'w rhentu a'u prynu.
  - ✓ Bod yn fwy hyblyg – boed trwy sicrhau bod tai adfeiliedig yn cael eu defnyddio unwaith eto, prynu tai presennol neu adeiladu rhai newydd.
  - ✓ Gwneud beth bynnag sydd ei angen trwy ddatblygu ffyrdd arloesol a chreadigol o ddarparu rhagor o dai.
  - ✓ Defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau posibl i sicrhau cynifer o dai newydd â phosibl.
  - ✓ Defnyddio arbenigedd, sgiliau ac adnoddau'r rhai sy'n gweithio gyda ni.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?


- Mae angen inni ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol i ddiwallu anghenion y preswylwyr yn Sir Gaerfyrddin.
- Mae angen i ni adeiladu tai cyngor newydd ledled y sir.
- Mae angen i ni weithio gyda landlordiaid preifat i'w hannog i osod eu heiddo am bris fforddiadwy, ac mae angen i ni sicrhau bod rhagor o dai o'r sector preifat yn cael eu rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol 'Gosod Syml'.
- Mae angen i ni weithio mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai yn Sir Gaerfyrddin er mwyn sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o dai fforddiadwy newydd.
- Mae angen i ni weithio gyda pherchenogion eiddo i sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto.
- Mae angen i ni brynu cartrefi o'r sector preifat a chynyddu stoc Tai Cymdeithasol y Cyngor.
- Mae angen i ni sicrhau y codir cynifer o dai fforddiadwy â phosibl trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr o'r system gynllunio.
- Mae angen i ni fwyhau'r holl gyfleoedd cyllido i'r Cyngor ac i Gymdeithasau Tai.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

A. Byddwn yn darparu'r uchod i gyd drwy ein Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy . Mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach ar hyn o bryd gyda mwy o ffocws ar adeiladu tai cyngor newydd a thai fforddiadwy cost isel a fydd yn cael effaith enfawr ar iechyd, economi a llesiant cymdeithasol y sir. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau bod cartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn cynyddu dewis a darparu'r math cywir o gartref yn yr ardaloedd cywir.

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Nifer y tai fforddiadwy yn y Sir** *(7.3.2.24)*




## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

### Helpu pobl i brynu eiddo am y tro cyntaf.

Ers dechrau'r cynllun rydym wedi helpu dros 50 o deuluoedd. Rydym wedi gwneud hyn drwy ddarparu cartrefi ar sail rhannu ecwiti drwy ein rhaglen Perchentyaeth Cost Isel. Mae'r cartrefi wedi'u darparu o broses Tai Fforddiadwy Adran 106 y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddatblygwyr sy'n codi mwy na 5 o dai ar safle, ddarparu tai fforddiadwy yno hefyd. Gall hyn amrywio rhwng 10% a 30% yn dibynnu ar ble yn y sir y mae'r datblygiadau hyn.






Caiff ein cartrefi eu henwebu i unigolion a theuluoedd cymwys o'r Gofrestr Tai Fforddiadwy. I fod yn gymwys, ni all incwm yr aelwyd fod yn fwy na £25,000, sy'n golygu na fyddai'r teuluoedd hyn yn gallu fforddio prynu eu cartref eu hunain ar y farchnad agored heb gymhorthdal. Mae'r cartrefi'n parhau i fod yn fforddiadwy am byth drwy ddefnyddio pridiannau tir lleol. Os yw'r eiddo i'w werthu, unwaith eto fe'i henwebir i aelwydydd cymwys o'r Gofrestr Tai Fforddiadwy.




**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Linda Evans**

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

# Amcan Llesiant 8
## Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae ein ffordd o fyw yn newid, mae pobl yn byw'n hwy ac mae eu hansawdd bywyd yn well.
- Yr her yw atal salwch.
- Mae byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.
- Mae llawer o'r gwasanaethau ataliol a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant y tu allan i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
- Chwarae rhan yn darparu gwasanaethau hygyrch, cynhwysol, cyffrous a chynaliadwy sy'n hyrwyddo a hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae bwlch sylweddol rhwng disgwyliad oes a disgwyliad oes iach. Yn Sir Gaerfyrddin:-
  - Y disgwyliad oes i ddynion yw 78.0 o flynyddoedd (2015-17) o gymharu â disgwyliad oes iach o 65 o flynyddoedd (2010-14)
  - Y disgwyliad oes i fenywod yw 82.2 o flynyddoedd (2015-17) o gymharu â disgwyliad oes iach o 66 o flynyddoedd (2010-14)
  - Mae'r disgwyliad oes iach i ddynion a menywod yn is na chyfartaledd Cymru sef 65.3 a 66.7 o flynyddoedd.
- Mae 18.6% o oedolion yn dal i ysmygu yn Sir Gaerfyrddin ac mae 57.8% o oedolion dros bwysau neu'n ordew (Cyfartaledd Cymru yw 59.5%) Arolwg Iechyd Cymru 2016/17 a 2017/18

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ar draws Sir Gaerfyrddin:
  - Yn bwyta ac yn anadlu'n iach
  - Yn gorfforol egnïol, ac
  - Yn iach yn feddyliol.
- Mae angen i ni waredu anghydraddoldebau o ran cyfleoedd i bobl fynd i'r afael â'r 3 maes allweddol hyn.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

A. **Bwyta ac yn anadlu'n iach**: Byddwn yn darparu peiriannau gwerthu bwyd iach ac opsiynau bwyd iach fel rhan o'r ddarpariaeth arlwyo yn ein cyfleusterau Hamdden ac yn parhau i sicrhau bod ein cyfleusterau hamdden awyr agored h.y. Parciau Gwledig, rhwydweithiau hawliau tramwy yn dal i gael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod pawb yn cael mynediad diogel iddynt ac yn eu mwynhau.


B. **Gweithgaredd Corfforol:** Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y Pentref Llesiant newydd sbon danlli yn Llanelli; Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r sectorau gwirfoddol ac iechyd i sicrhau bod "mwy o bobl yn fwy egnïol yn fwy aml", a galluogi cyflogwyr i gefnogi iechyd a llesiant eu gweithlu drwy fentrau Gweithio mewn Partneriaeth ag Ysgolion.

C. **Iechyd Meddwl:** Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid ym maes iechyd a'r trydydd sector i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac i wella mynediad i wybodaeth, cyngor, gwasanaethau ataliol, a gwasanaethau argyfwng yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn anelu at gael pobl i elwa ar fanteision iechyd cadarnhaol cael ysbrydoliaeth o gasgliadau amgueddfa i hyrwyddo creadigrwydd, meddwlgarwch, a hunanhyder, ac yn ymgorffori cerbydau newydd y Llyfrgelloedd Teithiol er mwyn gwella gwybodaeth, llythrennedd digidol ac iechyd ar draws y sir.

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn**
*(Arolwg Cenedlaethol Cymru)*

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18 yn dangos bod **69%** o'r oedolion sy'n cymryd rhan yn yr arolwg yn Sir Gaerfyrddin yn dweud bod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn.** Mae hwn ychydig yn llai na chyfartaledd Cymru ac mae'n llai na chanlyniad y llynedd sef 70% ond rydym dal yn y 14eg safle yng Nghymru.




## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

**Annog Ffyrdd Iach o Fyw**

Nod y Gwasanaethau Hamdden yw helpu pobl i fyw'n iach, ac mae bod yn fwy egnïol yn fwy aml yn ganolog i hybu a sicrhau cymuned iachach yn Sir Gaerfyrddin, gyda'r holl gamau wedi'u hanelu at gyrraedd y nod hwn.

Rydym am sicrhau:

- ✓ Taw Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf heini ac iach yn y Deyrnas Unedig
- ✓ Bod pob unigolyn yn cymryd rhan weithgar mewn 'Clwb Cymunedol' neu 'Gyfleuster Hamdden/Diwylliannol'
- ✓ Bod pob plentyn yn Sir Gaerfyrddin yn dwlu ar weithgareddau Hamdden/Diwylliannol am oes






**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths**

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

Wedi'i adael yn fwriadol wag

# Heneiddio'n Dda



# Amcan Llesiant 9
## Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn niweidiol i'n hiechyd, ac mae ymchwil yn dangos bod diffyg cyswllt cymdeithasol mor niweidiol i'n hiechyd ag ysmygu 15 o sigarennau'r dydd, a'i fod yn waeth i ni na ffactorau risg amlwg megis gordewdra ac anweithgarwch corfforol.
- Yn ogystal â chael effaith ar leihau'r risg o farwolaeth gynnar a salwch, mae cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol hefyd yn helpu unigolion i wella pan fyddant yn sâl.
- Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn golygu bod mwy o berygl y bydd unigolion yn dirywio'n wybyddol
- Mae unigrwydd ymhlith pobl ifanc yn cynyddu'r tebygolrwydd o iechyd corfforol a meddyliol gwael, o droseddu, ac o gael llai o gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Perthnasoedd da a synnwyr o berthyn oedd y peth trydydd pwysicaf yn ein harolwg llesiant o 2,500 o breswylwyr.
- Mae pwysigrwydd teulu o ran cael dylanwad cadarnhaol ar lesiant yn amlwg mewn canfyddiadau sy'n deillio o weithgareddau ymgysylltu sylfaenol fel rhan o asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin. Cafodd teulu a ffrindiau eu nodi gan fwyafrif llethol fel y ffactor pwysicaf o ran llesiant cadarnhaol gan dros 500 o oedolion a phlant oedd yn cymryd rhan mewn ymarfer corff.
- Mae 48% (yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol o 50%) o drigolion Sir Gaerfyrddin o'r farn eu bod yn byw mewn cymunedau cydlynol. Roedd 72% yn cytuno bod pobl leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth, roedd 68% yn cytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda, ac roedd 70% yn teimlo mai yn eu hardal leol yr oeddent yn perthyn. *(Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016/17).*
- Rhoddwyd sylw drwy gydol Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin i faterion yn ymwneud â diogelwch ac mae teimlo'n ddiogel yn y cartref ac yn y gymuned leol yn effeithio ar synnwyr pawb o lesiant.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i anghenion teuluoedd a chymunedau.
- Mae angen i ni barhau i feithrin mwy o gydlyniant cymunedol a helpu a galluogi cymunedau i fynd i'r afael â'u diogelwch, eu llesiant ar y cyd, a llesiant y rheiny yn y gymuned, gan gynnwys creu bondiau cymdeithasol mewn grwpiau a phontydd cymdeithasol rhwng grwpiau yn ein cymunedau.
- Mae angen i ni hybu annibyniaeth, llesiant, ymgysylltu cymunedol, a chynhwysiant cymdeithasol.
- Mae angen i ni gadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu ein gwasanaethau

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

**A.** Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ledled y gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**B.** Byddwn yn hyrwyddo ac yn datblygu cysylltiadau cryf ar gyfer pobl, lleoedd a sefydliadau.

**C.** Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cymdogion.


**D.** Byddwn yn parhau i gefnogi diogelwch cymunedol er mwyn cynyddu'r synnwyr o ddiogelwch personol sydd gan bobl, a pha mor ddiogel maent yn teimlo yn y mannau lle maent yn byw, yn gweithio ac yn treulio eu hamser hamdden.

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**% yn dweud bod ganddynt ymdeimlad o gymuned** *(Arolwg Cenedlaethol Cymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)*

Mae'r **'Ymdeimlad o Gymuned'** yn deillio o dri chwestiwn; Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'.

Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r % newid 4ydd uchaf o flwyddyn i flwyddyn, ar ôl lleihau o 73% yn 2014-15 i 47.7% a symud i lawr o'r 5ed safle i'r 13eg safle




## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

### Yr Ymgyrch Rhuban Gwyn - diwedd trais gwrywaidd yn erbyn menywod a merched

whiteribbon.org.uk




Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Heddlu Dyfed-Powys wedi bodloni'r safonau oedd yn ofynnol er mwyn ennill statws achrededig White Ribbon UK. Mae ennill statws White Ribbon UK yn dangos ymrwymiad y sefydliad i'r Ymgyrch Rhuban Gwyn - y fenter fyd-eang fwyaf i ddiweddu trais gwrywaidd yn erbyn menywod a merched. Mae'r dyfarniad yn cydnabod y gwaith mae'r tri sefydliad eisoes wedi'i wneud i gael dynion i siarad a herio trais gwrywaidd yn erbyn menywod a merched. Mae hefyd yn ein hatgoffa o'r gwaith sydd angen ei wneud o hyd.




Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol
Y Cyng. Cefin Campbell

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

## Amcan Llesiant 10

## Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfran uchel o drigolion dros 65 oed sy'n rhan hanfodol a bywiog o'r gymuned. Rydym am i'r sir fod yn lle i heneiddio'n dda.
- Ymgyngoriadau wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig i bobl hŷn yw gallu bod mor annibynnol ac iach â phosibl am gyn hired â phosibl.
  **'Cael fy mharchu fel rhywun hŷn, heb gael fy ystyried yn faich ar y system iechyd a gofal cymdeithasol leol'**
- Dengys ymchwil fod cael pobl hŷn i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn ddefnyddiol yn ffactor hanfodol o ran heneiddio'n iach.
- Mae pobl hŷn yn cyfrannu at yr economi yn Sir Gaerfyrddin drwy ofalu am eu hwyrion a'u hwyresau neu aelodau eraill o'r teulu.
- Mae'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol wedi disgrifio pobl hŷn fel '*glud cymdeithasol*' cymunedau.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae rhagamcaniadau cyfredol yn awgrymu bod poblogaeth pobl dros 65 sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn tyfu ac erbyn 2030 bydd yn cynyddu 60%. Mae cynnydd sylweddol wedi bod, ac yn parhau i fod, yn y 'bobl hŷn hynaf' a chafwyd y cynnydd mwyaf yn y grŵp oedran dros 85; lle rhagwelir bydd twf o 116%.
- Yn ystadegol mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu bywydau, gyda 55% o'r boblogaeth dros 65 oed yn dweud bod ganddynt anabledd neu salwch hirdymor. Yn gyffredinol mae'r galw am wasanaethau ysbyty a chymunedol gan y rheiny sy'n 75 oed a hŷn dair gwaith yn fwy na chan y rheiny sydd rhwng 30 a 40 oed.
- Er bod pobl Sir Gâr yn byw'n hwy, nid oes tuedd debyg o ran bod yn iach am fwy o flynyddoedd. Diffinnir hyn fel disgwyliad oes iach heb anabledd ac mae'n tyfu'n arafach na disgwyliad oes. Yn syml, mae hyn yn golygu bod pobl yn byw'n hwy gyda salwch ac anableddau. I ddynion yn yr ardal, 77.4 yw'r disgwyliad oes, a 59.4 yw'r oed a amcangyfrifir ar gyfer byw heb anabledd, a 64 ar gyfer bywyd iach. Ar gyfer menywod, 82 yw'r oedran, a 61.2 ar gyfer byw heb anabledd a 65.7 ar gyfer bywydau iach.
- Mae'n hanfodol inni osod seiliau cadarn i ddiogelu at y dyfodol argaeledd gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant parhaus ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn sy'n fregus.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni barhau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel iechyd poblogaeth i fynd i'r afael â'r anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig ag aml-gyflyrau a bregusrwydd yn sgil oedran.
- Mae angen i ni weithio gydag unigolion a chymunedau, gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol, i ddatblygu a hyrwyddo ffyrdd arloesol ac ymarferol o wneud Sir Gaerfyrddin yn lle da i dyfu'n hŷn i bawb (gweler Amcan 11 ar *Heneiddio'n Dda).*
- Mae angen inni ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir ar ôl troed llai sy'n seiliedig ar y boblogaeth, wedi'i integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a cheisio lleihau'r galw a thwf yn y dyfodol

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?


Comisiynwyd Adolygiad Seneddol gan Lywodraeth Cymru o Ddyfodol Tymor Hir Iechyd a Gofal Cymdeithasol: "Cymru Iachach" yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad hwnnw. Mae'r adroddiad yn mabwysiadu "Nod Pedwarplyg". Maent yn gweithio'n barhaus tuag at:

**A.** Gwell iechyd a llesiant i'r boblogaeth; ;
**B.** B. Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwell sy'n fwy hygyrch;
**C.** Iechyd a gofal cymdeithasol o werth uwch; a
**D.** D. Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ysbrydoledig a chynaliadwy

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Yn cytuno bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal** *(Arolwg Cenedlaethol Cymru)*

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17, roedd 56.2% o'r rhai a holwyd yn cytuno bod **gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael** yn eu hardal, mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 56.8% ond yn welliant ar y flwyddyn flaenorol sef 53.1%. Mae hyn yn ein rhoi yn y **15fed** safle yng Nghymru o gymharu â'r 12fed safle y flwyddyn flaenorol.




## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

### Menter Ffrindiau Dementia

Rydym wedi ymrwymo i helpu ein trigolion i Heneiddio'n Dda, gan gynnal urddas ac annibyniaeth a galluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Un o'n mentrau yw creu Sir Gaerfyrddin sy'n cefnogi pobl â dementia. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Heddlu Dyfed-Powys ynghyd â meddygfeydd teulu lleol, Cynghorwyr Tref, busnesau lleol, grwpiau gwirfoddol ac aelodau'r gymuned wedi gweithio gyda'i gilydd er mwyn cefnogi menter Ffrindiau Dementia'r Gymdeithas Alzheimer. Nod y rhaglen yw darparu sesiynau ymwybyddiaeth o ddementia fel y gall busnesau lleol, sefydliadau, gweithwyr y sector cyhoeddus a'r cyhoedd fod yn ffrindiau dementia ac addo cymryd camau er mwyn i bobl sy'n byw gyda Dementia deimlo eu bod yn gallu cael mynediad i'w cymunedau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn Llanelli, Pontyberem, Rhydaman, Llanymddyfri, Talacharn, Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf a'r cyffiniau, Llandeilo a Thref Caerfyrddin.







**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Jane Tremlett**

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

# Amcan Llesiant 11
## Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Gall gwasanaethau ehangach wneud cyfraniad pwysig i gefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn a lleihau'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd.
- Wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, mae angen i ni wrando ar yr hyn maent wedi ei ddweud wrthym.
- Wrth benderfynu ar beth i'w wneud, mae angen i ni ofyn i'n hunain, a fyddai'r gwasanaeth hwn *yn iawn i mi neu fy mherthnasau*
- Mae mynd i'r afael ag achosion o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn flaenoriaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru.
- Rhaid hyrwyddo a diogelu hawliau pobl hŷn fel eu bod yn gallu heneiddio'n dda a chael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail oedran, rhagfarn a chamdriniaeth. (Gweler blaenoriaethau'r Comisiynydd Pobl Hŷn)
- Fel bod pobl hŷn yn gallu cyfranogi'n llawn yn eu cymunedau.
- Rydym yn cefnogi *'Datganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed yn Ewrop, 2013'.*
- Mae'r Cyngor wedi penderfynu gwneud Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n cefnogi pobl â dementia, tebyg i Raglen Gymunedol Cefnogi Pobl â Dementia y Gymdeithas Alzheimer.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae pobl hŷn yn ased sylweddol i Gymru, ac yn werth mwy nag £1 biliwn i economi Cymru yn flynyddol. Mae'n rhaid i ni fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau sydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar gostau darparu gwasanaethau i bobl hŷn, yn ystyried cost peidio â buddsoddi mewn pobl hŷn
- Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio ac erbyn 2039 bydd tua 1 ym mhob 3 o drigolion y sir yn 65+ oed.
- Mae pobl hŷn sy'n cael cefnogaeth drwy wasanaethau wedi'u teilwra ac sy'n byw mewn cymunedau cynhwysol, yn gallu cyfrannu mwy at yr economi a'r gymdeithas leol.
- Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd pobl hŷn wrthym eu bod am gymaint o gefnogaeth â phosibl i'w helpu i wneud y pethau maent yn eu mwynhau ac i ymdopi o ddydd i ddydd.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni 'uno' ein his-adrannau ac adrannau amrywiol er mwyn cefnogi byw'n annibynnol a helpu pobl hŷn i fyw yn eu cymunedau. Sicrhau bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i effaith yr holl newidiadau i wasanaethau ar bobl hŷn.
- Mae angen i ni ymgynghori mewn ffordd ystyrlon â phobl hŷn sydd yn aml yn *'arbenigwyr trwy brofiad'* ac sy'n gwybod pa wasanaethau sydd eu hangen arnynt i gadw eu hannibyniaeth ac i fod yn rhan o'u cymunedau.
- Mae angen i ni ganolbwyntio ar ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau i grynhoi'r newidiadau a'r gwelliannau a welir ym mywyd unigolyn - mae angen i ni greu gwasanaethau gan roi pwyslais ar y canlyniadau y mae ar bobl hŷn eu heisiau.
- Mae angen i ni edrych sut y byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyrraedd targedau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i'w cynnwys yng *Nghynllun Llesiant* y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.


### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei strategaeth newydd ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn Ngwanwyn 2019. Bydd angen i'r Cyngor adnewyddu'r blaenoriaethau lleol sy'n deillio o'r strategaeth genedlaethol ac ymateb iddynt.
- Trwy wneud hyn, bydd y Cyngor hefyd yn cymryd i ystyriaeth blaenoriaethau'r Comisiynydd Pobl Hŷn a blaenoriaethau gweithredu oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd.

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Pobl sy'n unig** *(Arolwg Cenedlaethol Cymru) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol)*

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18,
roedd **16.6%** o'r oedolion gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin yn **ystyried eu bod yn unig,** ac mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 16.3% ond mae wedi gostwng ers canlyniad y flwyddyn flaenorol o 17.1% ac rydym dal yn y 10fed safle.




*Noder bod y canlyniad arolwg hwn ar gyfer yr holl oedolion oedd yn cymryd rhan ac nid yr henoed yn unig.*

## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

### Mae Sir Gaerfyrddin yn garedig

Cynhaliwyd digwyddiad blynyddol y Fforwm 50+ ar 14 Medi 2018 yn yr Ardd Fotaneg ac roedd 634 yn bresennol. Datblygwyd perthynas waith agos gyda chydweithwyr yn yr Adran Gymunedau er mwyn gweithredu ffocws **Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig**. Roedd y ffocws hwn yn siarad am y cysyniad o garedigrwydd ac anogaeth fod pethau mawr yn bosibl drwy'r gweithredoedd symlaf o garedigrwydd a haelioni.






**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Linda Evans**
**Y Cynghorydd Jane Tremlett**



I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

Wedi'i adael yn fwriadol wag


# Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus



## Amcan Llesiant 12

## Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae'r *Amgylchedd Naturiol* yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus *i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau*.
- Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw'r adnodd naturiol y mae rhan helaeth o'n heconomi wedi ei seilio arni – twristiaeth, ffermio, coedwigaeth, ac ynni adnewyddadwy. Mae'n ffactor o bwys sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'n sir, gan ddod â buddsoddiad o'r tu allan gyda hwy.
- Mae gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn hanfodol yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd a gwasanaethau ecosystem allweddol megis bwyd, rheoli llifogydd, llygredd, dŵr ac aer glân.
- Mae 60% o bobl y sir yn byw mewn ardaloedd gwledig ac mae'r 40% arall yn byw o fewn 400 metr i lecyn gwyrdd naturiol neu led naturiol.
- Roedd yr arolwg Asesiad Anghenion Llesiant wedi clustnodi perthynas gref rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.
- Rhaid i gyrff cyhoeddus, o dan nod '*Cymru Gydnerth*' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bennu amcanion i gyflawni 'amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol'

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae'r amgylchedd yn cyfrannu £8.8 biliwn o nwyddau a gwasanaethau bob blwyddyn i economi Cymru, 9% o GDP Cymru ac 1 ym mhob 6 swydd yng Nghymru; gan fod yn fwy pwysig i economi Cymru na'r hyn ydyw yn achos cenhedloedd eraill y DU.
- Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, yn ogystal â'n hiechyd a'n llesiant.
- Mae ymatebion o'r arolwg Asesiad Llesiant wedi dangos bod amgylchedd glân yn bwysig i lesiant a bod pobl yn poeni am gadw a gwella'r amgylchedd lleol gan iddynt gyfeirio droeon at dipio gwastraff yn anghyfreithlon, sbwriela, ac ailgylchu.
- Mae'n debygol y bydd cynnydd yn lefelau'r môr yn cael effaith nid yn unig ar y 5,587 eiddo yn Sir Gaerfyrddin sydd eisoes mewn perygl o lifogydd llanwol a llifogydd yn sgil cynnydd yn lefel afonydd, ond ar eiddo ychwanegol ar hyd cymunedau arfordirol ac afonol y sir. Bydd amgylchedd naturiol bioamrywiol yn fwy gwydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd, a newidiadau yn lefel y môr.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen inni sicrhau ein bod, wrth weithredu ein strategaethau, cynlluniau, prosiectau a rhaglenni ar gyfer datblygu, twf economaidd a denu mewnfuddsoddiad, yn cyflawni ein dyletswyddau Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn mynd ati i gynnal a gwarchod bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.
- Mae angen i ni gynnal a gwella llecynnau naturiol ac adeiledig er mwyn annog trigolion y sir ac ymwelwyr i fyw'n iach.
- Mae angen i ni gefnogi cydnerthedd yn ein cymunedau gwledig a threfol.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

**A.** Byddwn yn cynghori'r Awdurdod cyfan a phartneriaid ynghylch ein hangen i fynd i'r afael â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a monitro'r modd y cyflawnir Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd CCC, gan ddangos felly ei fod yn cydymffurfio â Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o fewn y Ddeddf.

**B.** Sicrhau, wrth weithredu gwasanaethau cynllunio ar draws y Sir, ac yn enwedig yr agweddau amrywiol ar Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ein bod yn dangos ein bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd o fewn y Ddeddf.


**C.** Byddwn yn parhau i weithredu a hyrwyddo'r cynnydd yn y defnydd o ynni adnewyddadwy ac yn dod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030.

**D.** Byddwn yn amddiffyn ein hamgylchedd a'n heiddo drwy ddarparu ein *Cynllun Rheoli Llifogydd a Gwastraff;* ac yn amddiffyn a rheoli ein harfordir drwy gyflawni *Cynllun Rheoli'r Traethlin.*

**E.** Byddwn yn gweithredu camau o'r strategaeth '*Tuag at Ddyfodol Diwastraff*', er mwyn bod yn genedl sy'n ailgylchu llawer erbyn 2025 ac yn genedl ddiwastraff erbyn 2050.

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Cyfraddau ailgylchu** *(PAM/030)*




Bu i'r gyfradd **ailgylchu** ostwng yn 2017/18 i 63.64% o 66.23% y flwyddyn flaenorol, gan olygu ein bod yn symud o'r 5ed i'r 10fed safle ond ychydig uwch na chyfartaledd Cymru o hyd. Mae'r dirywiad bach hwn yn bennaf o ganlyniad i anawsterau â'r mannau tanwydd sy'n deillio o sbwriel.

## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

### Rheoli ein cynefinoedd gwlyptir

Gall rheoli ein cynefinoedd gwlyptir yn briodol a'u hail-greu yn y lleoedd iawn ddod â manteision mawr i fywyd gwyllt *a* phobl. Roedd y tir arfordirol gwastad i'r de-ddwyrain o Lanelli ar un adeg yn gorstir pori arfordirol a ffurfiai ran o dirwedd arfordirol nodedig y sir. Er i lawer gael ei golli/diraddio wrth i Lanelli ddatblygu'n dref ddiwydiannol bwysig, mae ardaloedd wedi cael eu hail-greu/adfer dros y blynyddoedd diwethaf ac mae bywyd gwyllt yn ffynnu yno bellach. Dros yr ychydig o flynedd ddiwethaf mae'r Cyngor, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Cyfoeth Naturiol Cymru a chontractwyr lleol wedi gweithio gyda'i gilydd i greu/adfer nodweddion gwlyptir mewn ardaloedd a ddiraddiwyd o hen gorstir pori arfordirol y mae'r Cyngor yn berchen arno yn agos i Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir. Eleni adferwyd/crëwyd dros 400m o ffos i helpu llygod pengrwn y dŵr mewn ardal o dir lle roedd prysgwydd yn tyfu. Y gobaith yw y bydd yn dod yn gartref i amryw o rywogaethau gwlyptir ac yn gwella mannau storio dŵr lleol. Gan fod y tir yn gysylltiedig ag Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, lle mae cryn dipyn o greu cynefinoedd wedi digwydd ac sy'n bwysig iawn i fywyd gwyllt (ac sydd hefyd yn lle gwych i bobl ddysgu am yr amgylchedd naturiol a'i fwynhau), dylai wella cydnerthedd ecolegol y dirwedd leol i gefnogi llygod pengrwn y dŵr.







**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cyng. Phillip Hughes**

I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

# Amcan Llesiant 13
## Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth




### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae trafnidiaeth a phriffyrdd yn allweddol o ran cynnal ein cymuned a darparu *'Ffyniant i Bawb'.* Mae economi fodern, lwyddiannus yn dibynnu ar symud pobl a nwyddau'n ddiogel ac yn effeithlon; rhoi cyfleoedd i bobl gael mynediad i waith ac addysg ac i wasanaethau iechyd, hamdden, cymdeithasol ac adwerthu.
- *Bod yn unedig a chysylltiedig* yw un o bedwar amcan Llywodraeth Cymru yn ei gynllun *'Symud Cymru Ymlaen'.* Gall darparu mynediad integredig a fforddiadwy i fusnesau, i drigolion y sir, ac i ymwelwyr ysgogi datblygiad economaidd, lleihad mewn amddifadedd ac allgau cymdeithasol, a chynnydd mewn llesiant.
- Bydd cynnal mynediad at wasanaethau yn rhoi bod i welliannau mewn iechyd a llesiant ar gyfer pob rhan o'r gymuned e.e. sy'n cynnwys: cerdded, beicio, trafnidiaeth teithwyr a ffyrdd.
- Bydd De-orllewin Cymru yn Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig erbyn 2030.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Roedd ein harolwg wedi clustnodi bod *trafnidiaeth a phriffyrdd yn bwysig* ac ymhlith y 10 blaenoriaeth uchaf ar gyfer y gymuned roedd cynnal a chadw'r ffyrdd, gwasanaethau bysiau a chynnal a chadw palmentydd.
- Yn ein harolwg ynghylch bodlonrwydd ar wasanaethau a phwysigrwydd gwasanaethau, clustnodwyd bod *Atgyweirio a Chynnal a Chadw'r Ffyrdd* yn un o'r rhai pwysicaf ac yn un o'r rhai roedd pobl lleiaf bodlon arnynt.
- Ein rhwydwaith priffyrdd yw'r ail fwyaf yng Nghymru ac mae'n cwmpasu 3,468 cilomedr, sy'n fwy na dwbl cyfartaledd Cymru sef 1,566 cilomedr; gan gwmpasu 16 miliwn metr sgwâr o ffyrdd cerbydau.
- Graddiwyd cyflwr ein ffyrdd yn y 17$^{eg}$ safle o blith 22 ledled Cymru yn 2017/18.
- Nid oes gan 18.8% o bobl fynediad i gar neu fan. Fodd bynnag, mae gan 43.5% o'r aelwydydd un car fesul aelwyd, a allai ddynodi llai o hygyrchedd mewn mannau lle nad oes system trafnidiaeth gyhoeddus dda.
- Dim ond 55% o'r rheiny oedd yn 80+ oed sydd â mynediad i gar neu fan, felly mae trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cymunedol yn bwysig er mwyn galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cymunedau; gall olygu'r gwahaniaeth rhwng rhywun yn aros yn annibynnol gartref neu'n cael gofal preswyl.
- Mae ansawdd aer yn achos pryder cynyddol yn Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?


- Byddwn yn gwella cysylltedd, lleihau tagfeydd ac yn gwella cystadleugarwch i ddatblygu a chefnogi mynediad i wasanaethau
- Mae angen i ni gynnal buddsoddiad yn ein systemau trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol a hwyluso teithio yn ôl ac ymlaen i ysgolion er mwyn cynnal ein Rhaglen Moderneiddio Addysg.
- Hefyd mae angen i ni fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi teithiau mwy cynaliadwy a Theithio Llesol. Er enghraifft, trwy lwybrau beicio, llwybrau troed, a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus.
- Mae angen i ni barhau i gynnal buddsoddiad yn ein seilwaith priffyrdd presennol er mwyn gwella cysylltedd.
- Mae angen i ni gynnal ein ffocws ar ddiogelwch ffyrdd a darparu ein blaenoriaethau o ran y strategaeth diogelwch ffyrdd.
- Bydd angen i ni sicrhau bod ein fflyd cerbydau yn ddiogel, modern ac effeithlon a dylunio ein strategaeth gyfnewid i addasu i newidiadau ym maes technoleg cerbydau.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

A. Byddwn yn parhau i ddatblygu priffordd newydd yn Cross Hands a datblygu cynlluniau strategol i gysylltu cymunedau er mwyn hyrwyddo ‘Teithio Llesol’ a thwristiaeth.
B. Byddwn yn parhau â’r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig llwyddiannus megis Bwcabus/LINC a Traws Cymru, datblygu Metro ar gyfer De-orllewin Cymru sy’n cynnwys Teithio Llesol, gorsafoedd bws a rheilffordd, ac yn gweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i wella cysylltedd rheilffordd ac amserau teithio i Orllewin Cymru.
C. Ein bwriad fydd ailddylunio ein rhwydwaith cludiant ysgol er mwyn cefnogi'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.
D. Byddwn yn parhau i gefnogi trafnidiaeth gymunedol.
E. Byddwn yn cyflawni ein hamcanion a bennwyd gennym yn ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd.
F. Byddwn yn parhau i foderneiddio ein fflyd cerbydau er mwyn gwella effeithlonrwydd ac i leihau allyriadau, ac i gefnogi datblygiad seilwaith gwefru cerbydau trydan.

## Mesur Llwyddiant Allweddol

Yn sgil buddsoddi mewn atgyweirio ffyrdd, rydym wedi gweld gwelliant cyffredinol yn eu cyflwr. Bydd y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn helpu i gefnogi ein rhaglen flaenoriaeth o osod wyneb newydd ar y ffyrdd.




## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

**Llwybr Dyffryn Tywi**




Mae rhan gyntaf Llwybr Dyffryn Tywi bellach ar agor. Mae'r llwybr, sy'n fwy na 750 metr o hyd, yn cysylltu Amgueddfa Caerfyrddin yn Abergwili â Bwlch Bach i Fronun ac ymlaen i Felin-wen. Mae'n cynnig golygfeydd prydferth i feicwyr a cherddwyr, gan gynnwys gerddi a phyllau Palas yr Esgob.

Rydym yn rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf drwy agor y rhan gyntaf ac rydym bellach yn ymdrechu i ragori wrth i ni weithio tuag at gwblhau'r llwybr!


Mae Llwybr Dyffryn Tywi yn un o brosiectau cyfalaf cyffrous Cyngor Sir Caerfyrddin, ac mae wedi cael £128,000 drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Ar ôl iddo gael ei gwblhau, disgwylir i'r prosiect roi hwb o hyd at £2.4 miliwn y flwyddyn i'r economi leol drwy gynyddu twristiaeth a gwariant gan ymwelwyr, sy'n rhan o weledigaeth hirdymor i Sir Gaerfyrddin fod yn Ganolbwynt Beicio Cymru.



Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol
Y Cynghorydd Hazel Evans

I weld ein cynllun cyflawni manwl yn erbyn yr amcan hwn

# Amcan Llesiant 14
## Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant




### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae Sir Gaerfyrddin yn gadarnle ar gyfer y Gymraeg ac ystyrir bod y sir o bwysigrwydd strategol mawr i ddyfodol yr iaith.
- Mae manteision lu yn perthyn i ddwyieithrwydd, gan gynnwys gwell sgiliau gwybyddol.
- Mae'n bwynt gwerthu unigryw. Mae diwydiannau twristiaeth a lletygarwch ledled Ewrop bellach yn sylweddoli pwysigrwydd cynnig profiadau unigryw. Mae cael dwy iaith a synnwyr o hanes a diwylliant Cymru yn golygu bod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gref.
- Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Yn ôl canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18, dywedodd **43.6%** o bobl Sir Gaerfyrddin eu bod yn siarad Cymraeg.
- Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi cwympo i **43.9%** o gymharu â 50.1% yn 2001.
- Uchelgais Llywodraeth Cymru drwy Cymraeg 2050 - Strategaeth y Gymraeg yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd **miliwn erbyn 2050**.
- Mae dogfen Llywodraeth Cymru Golau yn y Gwyll:Gweledigaeth ar gyfer Duwylliant yng Nghymru yn atgyfnerthu pwysigrwydd diwylliant fel blaenoriaeth.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen inni sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a monitro cynnydd ledled yr Awdurdod.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo cynnwys Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgol er budd pob dysgwr yn Sir Gaerfyrddin. *(Gweler hefyd Amcan Llesiant 3)*
- Mae angen inni hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau a gweithio gyda phartneriaid megis y Mentrau Iaith, yr Urdd a'r Mudiad Meithrin i wireddu'r weledigaeth a'r canlyniadau a nodwyd yn ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.
- Mae angen inni gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol.
- Mae angen inni sicrhau bod ein casgliadau ac asedau treftadaeth ein sir yn cael eu gwarchod ac ar gael i genedlaethau'r dyfodol

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

**A.** Byddwn yn gweithredu ac yn monitro **Safonau'r Gymraeg** o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar draws y Cyngor, i drigolion Sir Gaerfyrddin a gwasanaethau cyhoeddus eraill

**B.** Byddwn yn parhau i **ddatblygu'r Gymraeg yn ein holl wasanaethau addysg**, a thrwy hynny'n anelu at sicrhau bod pob plentyn yn hyderus ddwyieithog. Gall disgyblion gyrraedd eu potensial o ran ennill sgiliau i fod yn ddinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, y gweithle a'r tu hwnt/yn fyd-eang.


**C.** Byddwn yn gweithredu **Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg** - a fydd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn ym mhob cymuned

**D.** Byddwn yn hyrwyddo ein **treftadaeth a'n diwylliant Cymreig**

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Yn gallu siarad Cymraeg** *(Arolwg Cenedlaethol Cymru) (ACC) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol) (DLlC)*

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18 yn dangos bod **43.6%** yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, sy'n gynnydd ar ganran y flwyddyn flaenorol sef 40.1%. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru a'r ganran bedwaredd uchaf yng Nghymru.
*(Maint y sampl - 11,400 yng Nghymru).*
Sir Gaerfyrddin sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gydag ychydig dros 78,000 yn ôl Cyfrifiad 2011.





## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

Mae **llyfryn CROESO** wedi cael ei greu ar gyfer y rheiny sydd wedi dychwelyd i fyw yn Sir Gaerfyrddin neu sydd wedi symud yno.

Mae'r pecyn yn rhoi esboniad am y Sir a'r iaith Gymraeg.

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y manteision o fod yn ddwyieithog yn ogystal â rhestru'r gwahanol fusnesau a sefydliadau Cymraeg yn y sir a nodi'r lleoedd i siopa a chymdeithasu lle gallwch chi fwynhau'r iaith.

Rhoddir y pecynnau i'r rheiny sy'n cofrestru ar gyfer y dreth gyngor; tenantiaid newydd y Cyngor; staff newydd yn y brifysgol, y bwrdd iechyd, yr heddlu, a staff y cyngor yn y sir, yn ogystal â chael eu treialu gydag asiant tai a darparwyr tai cymdeithasol.







Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol
Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths

I weld ein cynllun cyflawni manwl yn erbyn yr amcan hwn

Wedi'i adael yn fwriadol wag

# Adeiladu Gwell Cyngor a Gwell Defnydd o Adnoddau






### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Pwrpas cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella Llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae'r disgwyliadau a'r galwadau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni 'mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai'.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae gwasgfeydd ariannol pellach yn debygol o ddeillio o bethau megis costau ynni cynyddol; cynnydd yn nifer y bobl hŷn y mae angen ein gwasanaethau arnynt; swyddfeydd, ac adeiladau ysgol a phriffyrdd y mae angen buddsoddi'n helaeth ynddynt, gan gofio bod hyn yn ychwanegol at yr ansicrwydd presennol o ran rhagolygon economaidd wrth i'r DU gychwyn y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Bydd ein rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) yn cefnogi sicrhau dyfodol sy'n ariannol gynaliadwy drwy ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol.
- Byddwn yn cynnal gwaith y Cyngor mewn ffordd agored a hygyrch, gan sicrhau ein bod yn briodol atebol am y penderfyniadau a wnawn.
- Ein bwriad yw buddsoddi oddeutu *£210 miliwn o gyllid cyfalaf yn ychwanegol* yn ein blaenoriaethau corfforaethol dros y pum mlynedd nesaf.
- Byddwn yn gwneud defnydd gwell o'n hadnoddau a fydd yn helpu i leihau'r effaith ar wasanaethau, yn bennaf drwy wneud defnydd doethach o'n hadeiladau, ein pobl a'n gwariant.

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

**A.** **Drwy drawsnewid, arloesi a newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau.** Nod ein rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) yw meddwl yn wahanol, gweithredu'n wahanol ac felly cyflawni'n wahanol. Mae'r rhaglen yn ystyried ffactorau megis y potensial o sicrhau arbedion effeithlonrwydd ariannol, gwella gwasanaethau, cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a phrosiectau trawsnewidiol sy'n gallu sicrhau arbedion effeithlonrwydd mwy.

**B.** **Byddwn yn dilyn 7 Egwyddor Llywodraethu Da** a nodwyd yn Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth(CIPFA)/ Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE) -:-

**B1.** **Uniondeb a Gwerthoedd -** *(Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith)*

**B2.** **Bod yn Agored ac Ymgysylltu -** *(Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid)*

**B3.** **Gwneud Gwahaniaeth -** *(Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy)*

**B4.** **Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym i'w wneud** - *Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl.*

**B5.** **Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi -** *(Datblygu capasiti a gallu arweinwyr ac unigolion).*


**B6.** **Rheoli risgiau, perfformiad ac arian.**
*(Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref)*

**B7.** **Tryloywder ac atebolrwydd da**
*(Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol)*

## Mesur Llwyddiant Allweddol

**Lefelau absenoldeb oherwydd salwch staff** *(PAM/001)*

Mae lefelau salwch yn y Cyngor wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o 11.1 diwrnod yn 2009/10 i'r isaf, sef 9.6 o ddiwrnodau yn 2014/15. Mae'r Fframwaith Rheoli Absenoldeb Salwch Corfforaethol yn helpu Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r staff lle bo'r angen a bod y polisi salwch yn cael ei roi ar waith yn gyson. Absenoldeb oherwydd straen ac iechyd meddwl yw prif achos absenoldeb salwch o hyd.




## Enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei wneud

### Agenda Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC)



Mae'r **agenda Trawsnewid i Wneud Cynnydd** yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol trwy annog gwasanaethau i feddwl yn wahanol, gweithredu'n wahanol ac felly darparu'n wahanol - chwilio am ffyrdd newydd o weithio ac arloesi.

Yng Ngwobrau TIC 2018 eleni, cafodd pum tîm buddugol gydnabyddiaeth am eu cyfraniadau i'r agenda hon. Yn y digwyddiad, sydd bellach yn cael ei gynnal am yr ail flwyddyn, derbyniodd pob un o'r pum tîm, sef Tîm y Cynllun Absenoldeb Staff Ysgolion, Tîm y We, y Tîm Rheoli Plâu, y Tîm Anghenion Cymhleth a'r Tîm Makerspace, dystysgrif wedi'i fframio am eu llwyddiannau wrth gyflawni prosiectau a oedd yn adlewyrchu Trawsnewid i Wneud Cynnydd. Derbyniodd y Tîm Makerspace blac arbennig hefyd, wedi'i noddi gan 'We are Lean and Agile', fel Enillydd y Brif Wobr am lwyddiant ei brosiect. Pwysleisiodd y tîm sut yr oedd wedi llwyddo i fywiogi llyfrgelloedd ledled Sir Gaerfyrddin a sut y mae wedi symud i ffwrdd o'r meddylfryd traddodiadol ac wedi rhoi arloesedd a chreadigrwydd ar waith yn eu cymunedau.



**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd David Jenkins a'r Cynghorydd Mair Stephens**



I weld ein **cynllun cyflawni manwl** yn erbyn yr amcan hwn

# ATODIADAU

# Atodiad 1

Diweddariad i Amcanion Gwella / Amcanion Llesiant

| | Rhif | Amcan Llesiant | Adnewyddu/uwchraddio |
|---|---|---|---|
| **Dechrau'n Dda** | **1** | Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd | |
| | **2** | Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw (Gordewdra ymysg Plant) | Mynd i'r afael â chanfyddiadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru Rhag/Ion 2019 o'r Amcan Llesiant hwn |
| | **3** | ~~Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr~~<br>Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr | **Ailenwi**<br>Adlewyrchu'r pwyslais Cenedlaethol newydd ar lwyddiant a llesiant pob dysgwr.<br>Addysg yng Nghymru : Ein Cenhadaeth Genedlaethol |
| | **4** | ~~Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (pobl NEET)~~ | **Wedi newid i deitl mwy cadarnhaol:-**<br>Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (EET) ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol |
| **Byw'n Dda** | **5** | Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi | Adlewyrchu'n llawnach uchelgais prosiect Ty-isa |
| | **6** | Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir | Paratoi at Brexit<br>Cryfhau'r proffil gwledig |
| | **7** | Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael | |
| | **8** | Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) | Mwy o bwyslais ar Iechyd Meddwl |
| | **9** | Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel | Proffil gwell ar Ddiogelu |
| **Heneiddio'n Dda** | **10** | Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio | |
| | **11** | Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin | • Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei strategaeth newydd ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yng Ngwanwyn 2019. Bydd angen i'r Cyngor adnewyddu'r blaenoriaethau lleol sy'n deillio o'r strategaeth genedlaethol ac ymateb iddynt.<br>• Trwy wneud hyn, bydd y Cyngor hefyd yn cymryd i ystyriaeth blaenoriaethau'r Comisiynydd Pobl Hŷn a blaenoriaethau gweithredu oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. |
| **Mewn Amgylchedd Iach a Diogel** | **12** | Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | Wedi cynyddu'r proffil ar gyfer Llifogydd<br>Mabwysiadu Rhybudd o Gynnig diweddar ar gyfer Dyfodol Di-garbon |
| | **13** | Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth | Gwella proffil Teithio Llesol |
| | **14** | Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | |
| **Llywodraethu Corfforaethol** | **15** | Adeiladu Gwell Cyngor<br>Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau | |

# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhwymedigaethau cyfreithiol ar wahân ond cysylltiedig, ac mae'n gwneud synnwyr i sicrhau bod y rhwymedigaethau hyn wedi'u halinio a'u cyfuno'n llwyr yn y Strategaeth Gorfforaethol newydd hon.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Gwella bob blwyddyn. Nid oes yn rhaid iddynt newid bob blwyddyn, nac ychwaith gael eu cyflawni o fewn blwyddyn.
- Yn y bôn mae ein Hamcanion Gwella yr un fath â'n Hamcanion Llesiant, gan eu bod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth drylwyr seiliedig ar dystiolaeth o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac anghenion lleol. Rydym yn cymharu perfformiad ein gwasanaeth a'n canlyniadau bodlonrwydd â phob Cyngor yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gwella lle mae angen i ni wella fwyaf.
- Mae dyletswydd arnom i wella, gan ddarparu'r 'un gwasanaethau neu fwy o wasanaethau, am lai o arian'.


## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yw hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar sut rydym yn gweithio. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf newydd yn nodi:-

a) Bod yn <u>rhaid</u> i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw
***'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'***

b) Mae'n <u>rhaid</u> i ni arddangos 5 ffordd o weithio:
Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol

c) Mae'n <u>rhaid</u> i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.




Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gweledigaeth a rennir y gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Fel corff cyhoeddus roedd yn ofynnol i ni, yn unol â'r Ddeddf, bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant oedd yn mwyhau ein cyfraniad i'r Amcanion Llesiant.

## Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

| Amcanion Llesiant / KIOPs Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2017/18 | | | 7 Nod Llesiant Cenedlaethol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Llewyrch | Cydnerthedd | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog a'r Gymraeg | Cyfrifoldeb Byd-eang |
| Dechrau'n Dda | 1 | Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | 2 | Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 3 | Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| | 4 | Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Byw'n Dda | 5 | Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | 6 | Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 7 | Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | 8 | Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Heneiddio'n Dda | 9 | Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel | | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | 10 | Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 11 | Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y sir | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus | 12 | Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| | 13 | Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | 14 | Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 15 | Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Atodiad 3**

## Ariannu Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae awdurdodau lleol wedi wynebu'r un sefyllfa ariannol dros y degawd diwethaf, sef toriadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus. Golyga hyn fod gennym lai o arian i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau nawr nag yn y gorffennol. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi gorfod rheoli gostyngiadau o oddeutu £50 miliwn yn y cyllidebau sydd ar gael i wasanaethau, ac ar yr un pryd mae'r gwasgfeydd ar y gyllideb wedi bod yn cynyddu o ran galw a disgwyliadau. Rydym yn ymdrechu i'r eithaf i reoli'r sefyllfa hon drwy leihau ein gwariant heb fod unrhyw effaith sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i'n cymunedau.

### 1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

I gyflawni'r amcan hwn, mae angen i ni sicrhau buddsoddiad priodol yn y blynyddoedd cynnar trwy ein hadnoddau cymunedol megis Canolfannau Plant Integredig a Chanolfannau i Deuluoedd.
Mae'r Grant Plant a Chymunedau yn helpu i wella ac integreiddio'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn rhoi gwell cymorth i deuluoedd agored i niwed a phobl ar draws Cymru. Mae'r grant hwn yn cynnwys grantiau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf a gafodd £5.1m gan Lywodraeth Cymru yn 2018-19.

### 2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae'r pwyntiau allweddol uchod hefyd yn berthnasol.
Mae prydau ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn dilyn deddfwriaeth bwyta'n iach, ac mae cyllid craidd blynyddol o £3.4m ar gyfer hyn. Mae hyn yn cynnwys cost y fenter Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Ar gyfer 2019/20, mae'r Cyngor wedi rhewi'r prisiau er gwaethaf pwysau chwyddiant, ac mae cyllid grant ychwanegol o £300k ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau i gymhwysedd prydau ysgol am ddim.
Cefnogir gweithgareddau iach ar gyfer pobl ifanc gan gyllidebau rhaglennu cyfleusterau hamdden a datblygiadau chwaraeon presennol, wedi'u hategu gan Grant Cytundeb Partneriaeth yr Awdurdod Lleol o £500k yr ydym yn ei gael gan Lywodraeth Cymru trwy Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn helpu i dalu am weithgareddau megis Nofio Am Ddim a'r Rhaglen Pobl Ifanc Egnïol.

### 3. Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr

Er mwyn cyflawni'r amcan allweddol hwn, mae angen cymorth cynhwysfawr ac adnoddau o'n gwasanaethau i gyd. Mae Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i sicrhau rhaglen fanwl a blaengar i gefnogi gwell cyrhaeddiad ar gyfer ein holl blant a phobl ifanc. Mae ysgolion yn derbyn £108m o gyllid dirprwyedig yn ogystal â thua £19m drwy grantiau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae arian ychwanegol wedi'i ddarparu i dalu cost cyflogau athrawon a chynnydd yng nghost pensiwn.
Hefyd, rydym bron cyrraedd diwedd ein *Rhaglen Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr 21ain Ganrif* sydd werth £87m, i ddarparu'r gyfran gyntaf o brosiectau blaenoriaeth (Band A), gyda £43m yn dod o Lywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd yr ail gyfran o brosiectau (Band B) yn costio £129m, gyda £65m yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru. I sicrhau cymorth a her cynhwysfawr parhaus i'n hysgolion, mae angen rhyw £6.5m arnom i ariannu ein Timau Gwella Ysgolion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u darpariaeth bwysig. Mae angen £4m arall i barhau i ddarparu profiadau dysgu a chyflawni ehangach ac adnoddau megis amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau.

### 4. Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol

Mae gan y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid rôl arweiniol o ran cyflawni'r gwaith hwn yn yr ysgol ac mewn lleoliadau cymunedol. Y cyllid craidd blynyddol ar gyfer y gwasanaeth hwn yw £500k. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar grantiau allanol blynyddol yn cynnwys Grant Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Llywodraeth Cymru (£201k yn 18-19) a Theuluoedd yn Gyntaf (£661k yn 2018-19). Bydd yn hanfodol cael cyllid pellach gan grant Plant a Chymunedau er mwyn cyrraedd y targed llesiant hwn.

## 5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

Mae'n anodd amcangyfrif y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer darparu mentrau i fynd i'r afael â thlodi gan fod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws sbectrwm eang o wasanaethau. Ein busnes craidd yw rhywfaint o'r gwaith hwn, er enghraifft cymorth digartrefedd (£1m), ac mae elfennau eraill a dargedir yn cael eu cyllido drwy grantiau megis *Grant Plant a Chymunedau,* ynghyd â *Grant Amddifadedd Disgyblion* (£5.1m yn 2018-19). Yn ogystal, o ganlyniad i natur amrywiol tlodi a'r dylanwadau lawer sy'n gallu arwain at dlodi, mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at drechu tlodi yn anuniongyrchol. I'r gwasanaethau hyn, nid y 'nod eithaf' yw trechu tlodi, ond yn hytrach sgil-effaith y gwaith maent yn ei wneud i gefnogi unigolion a chymunedau.

## 6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Mae gwariant Sir Gaerfyrddin y pen ar Ddatblygu Economaidd yn uwch na Chyfartaledd Cymru. Adfywio'r economi a swyddi yw prif flaenoriaeth y Cyngor. Bydd ein cynllun adfywio 15 mlynedd yn creu dros 5,000 o swyddi a buddsoddir dros £199 miliwn yn y pum mlynedd nesaf yn unig yn ei sgil.
Fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe bydd gennym ddau brosiect mawr yn Sir Gaerfyrddin:-

- Yn y *Clwstwr Digidol Creadigol yn Yr Egin,* bydd prosiect â chyfanswm cost o £24m (£5m y Fargen Ddinesig ac £16 miliwn Sector Cyhoeddus £3 miliwn Preifat) yn cael ei roi ar waith gan greu mwy na 200 o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf.
- Yn y *prosiect Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant,* bydd prosiect â chyfanswm cost o £200 miliwn (£40m y Fargen Ddinesig, £32m Cyllid Sector Cyhoeddus ac £127m Sector Preifat) yn creu mwy na 1800 o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf.

Hefyd gweler Amcan 3 ar gyfer rhaglen adeiladu Ysgolion yr 21ain ganrif ac Amcan 7 Tai Fforddiadwy.

## 7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Nod ein cynllun Darparu Tai Fforddiadwy gwreiddiol oedd darparu mwy na 1000 o dai rhwng 2016 a 2021. Rydym eisoes wedi darparu dros 640 o dai, ac rydym ar y trywydd iawn i ragori ar y targed hwnnw. Ein huchelgais ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yw darparu mwy na 900 o dai newydd gyda buddsoddiad o dros £150m, gyda thros 250 yn cael ei ddarparu yn y 3 blynedd nesaf gyda buddsoddiad o £44m.

## 8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

Bydd yr amcan hwn yn dod â llawer o'r gwaith a wneir gan y gwasanaethau ynghyd, ac mewn rhai achosion mae'n anodd pennu gwariant o dan y pennawd hwn. Fodd bynnag y gwariant cyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf fydd:

- £16.5m ar ganolfan hamdden newydd yn Llanelli
- £1.675m ar welliannau i ganolfan hamdden Dyffryn Aman.
- £600k ar Hawliau Tramwy, £0.5m ar ddatblygu llecynnau agored gan gynnwys ym Mharc Gwledig Pen-bre.
- £4.25m ar gyfer llwybr beicio Dyffryn Tywi ac £1.4m ar gysylltiadau cerdded a beicio
- Yn ogystal â mwy na £675k ar lwybrau diogel mewn cymunedau

O ran gwariant refeniw ar gyfer 2019/20, byddwn yn:-

- Buddsoddi £1.6m mewn sicrhau bod plant yn cael 60 munud o ymarfer corff 5 gwaith yr wythnos a'r cynllun atgyfeirio cleifion
- Buddsoddi £6.3m ar gynnal cyfleusterau hamdden, chwaraeon a nofio
- Buddsoddi £4.4m ar lecynnau awyr agored, cefn gwlad a'r parc arfordirol
- Sicrhau llesiant diwylliannol ledled y cyfleusterau, drwy wario £6.8m ar ddarparu gwasanaethau
- Buddsoddi £37m mewn Gwasanaethau Anableddau Dysgu, £9.7m mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl, a £6.2m mewn Gwasanaethau Cymorth gan gynnwys Diogelu a Thrafnidiaeth.
- Cefnogi'r rhai sy'n anabl yn gorfforol drwy wario £6.6m a £2.1m ar gyflogaeth â chymorth
- Sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ar gael (Diogelwch Bwyd, Ansawdd Aer a Dŵr ac ati). £2.5m

Darparu Safonau Masnach £1m

## 9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

Pan fyddwn yn gofyn i bobl *pa bethau sydd yn bwysig i chi mewn bywyd?* maent yn dweud wrthym fod eu hanwyliaid, perthnasau, ffrindiau, cymdogion a'u cymuned yn bwysig iddynt. Yn y Gwasanaethau Plant mae ein hystod o wasanaethau cymorth i deuluoedd yn cyfrannu at yr amcan hwn ac mae'n anodd dadansoddi ei gostau ar wahân i gostau rhai o'n hamcanion eraill ynghylch rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a gwella eu profiadau ar ddechrau bywyd. Gwerir bron £24m i gyd ar draws Is-adran y Gwasanaethau Plant.

Mae gwasanaethau i helpu gofalwyr a gwasanaethau cymorth cartref yn helpu pobl i barhau i fyw gartref, gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau – Hefyd gweler Amcan 10

Yn ogystal rydym yn gweithio i sicrhau cydlynu ehangach â'r gymuned trwy ystod o fentrau - Dolen ag Amcan 13

## 10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

O ran gwariant cyfalaf byddwn yn gwario £10 miliwn ar grantiau cyfleusterau i bobl anabl dros y 5 mlynedd nesaf, a £7 miliwn ar yr Adolygiad o Ardal Llanelli yn 2019/20.

Byddwn yn gwario bron £62m o'n cyllideb refeniw yn 2019/20 ar Wasanaethau i Bobl Hŷn. Bydd hyn yn cynnwys:

- £4m ar Gomisiynu, £8.5m ar Gartrefi Preswyl yr Awdurdod Lleol, bron £23m ar Gartrefi Preswyl y Sector Preifat, a £782k ar ar ofal ychwanegol
- Ar Wasanaethau Gofal Cartref £6.5m Darpariaeth yr ALl a £9.2m ar ddarpariaeth Breifat.
- £1.7m ar wasanaethau tele-ofal a Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor, £2.3m ar alluogi ac £1.5m ar Wasanaethau Dydd a Chymorth Cymunedol

Gweler hefyd Amcan 11

## 11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

Mae'n anodd amcangyfrif lefel y buddsoddiad yn yr amcan hwn gan ei fod yn berthnasol i amrywiol wasanaethau. Y peth pwysig o ran yr amcan hwn yw sicrhau ein bod, ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, yn meddwl am gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

Yn syml, mae pobl hŷn yn gyfranwyr net i'r economi yn hytrach na buddiolwyr, drwy eu cyfraniadau at y sectorau marchnad cyflogaeth, gwirfoddoli, mentora, a gofalu. Mae'r gwaith y mae gwasanaethau'r Cyngor yn ei wneud i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn lleihau'r angen am ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol drudfawr - Gweler Amcan 10 hefyd

## 12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

O ran cymryd camau mewn perthynas â'r *Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y Cynllun Rheoli Llifogydd a Gwastraff a Chynllun Rheoli'r Traethlin,* mae'r camau hyn wedi eu cynnwys yn barod yn y cyllidebau perthnasol. Mae cyllideb refeniw is-adran y Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol o £21 miliwn (19/20) yn anelu at gyllido casglu a gwaredu gwastraff sy'n cynnwys mentrau ailgylchu niferus, glanhau strydoedd, gorfodi rheolau amgylcheddol, cynnal a chadw tiroedd a pharciau, gwarchod yr arfordir a gwarchod rhag llifogydd, yn ogystal â chynnal cyfleusterau cyhoeddus gan sicrhau ein bod yn gofalu am yr amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae CCC yn derbyn *grant refeniw Rheoli Gwastraff Cynaliadwy gan* Lywodraeth Cymru (£1.1m yn 2018/19)

### 13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Mae *Cynllun Trafnidiaeth Lleol* Sir Gaerfyrddin yn pennu ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae'r blaenoriaethau'n cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol ac wedi'u pennu yn amcanion Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae ein rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol yn cynnwys mwy na £15m i'w fuddsoddi yn y seilwaith priffyrdd, gyda thua £6m yn dibynnu ar gyllid grant allanol, ynghyd â chyfraniadau gan ddatblygwyr wrth i ddatblygiadau newydd gychwyn.

Mae cyllideb refeniw yr is-adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth o £30 miliwn yn cynnwys swm o £8 miliwn ar gyfer seilwaith priffyrdd yn ogystal â chyllid ar gyfer cludiant ysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus, cynnal a chadw a gweinyddu meysydd parcio, cynnal a chadw goleuadau cyhoeddus ar gyfer y sir, a datblygu strategaethau trafnidiaeth i gynnal cysylltedd seilwaith priffyrdd Sir Gaerfyrddin.

Bydd cyflwyno'r prosiectau trawsnewid megis y rheiny sydd wedi'u cynnwys yn y Fargen Ddinesig a'r prosiectau trafnidiaeth integredig, gyda chymorth cyllid allanol, yn rhoi cyfle i fuddsoddi yn y seilwaith a'r gwasanaethau trafnidiaeth er mwyn helpu i gludo pobl a nwyddau yn ddiogel.

### 14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru

Gellir mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon heb fod angen buddsoddiad mawr ychwanegol. Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni'r amcan hwn drwy'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'r Gwasanaethau Adfywio a Pholisi, Hamdden a Diwylliant, ac Addysg a Phlant i gynghori ac addysgu cydweithwyr ynghylch sut y gellir gwella rhagor ar ein gwasanaethau presennol a sut y gallwn hyrwyddo diwylliant bywiog a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu.

Efallai y bydd cymorth ychwanegol ar gael drwy *'Cymraeg 2050 – Strategaeth y Gymraeg'* Llywodraeth Cymru a byddwn yn monitro'n agos unrhyw gyfleoedd i Sir Gaerfyrddin gael y cymorth hwn.

### 15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Mae mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon yn cwmpasu'r holl feysydd gwasanaeth ac mae'n ymwneud â buddsoddiad yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fodelau cyflawni sy'n ariannol gynaliadwy - ceir llawer o enghreifftiau o hyn ar draws gwahanol adrannau, fel cynyddu'r ddarpariaeth Gofal Ychwanegol lle mae'n bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn well, symud tuag at weithio ystwyth, a thrwy hynny leihau costau ystad y Cyngor yn y dyfodol.

Dros gyfnod parhaus o ostyngiadau yn y gyllideb, mae'r Cyngor wedi ceisio mwyhau cyfran yr arbedion rheoli, a thrwy hynny leihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen. Mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn cynnwys £13.3 miliwn o gynigion "rheoli", neu 54% o gyfanswm y cynigion ar gyfer cwtogi'r gyllideb a gyflwynwyd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella ffyrdd o weithio drwy waith y rhaglen "Trawsnewid, Arloesi a Newid," sy'n cael ei ategu gan y tîm TIC (£204k).

# Datganiadau o Fwriad

## Datganiad Llesiant

Rydym yn croesawu ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym eisoes wedi rhoi sylw i lawer o ofynion y Ddeddf newydd ond yn cydnabod ein bod yn gallu gwneud rhagor.

1. Rydym yn teimlo bod ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni ein Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae ein Hamcanion Llesiant yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar gwrs bywyd ac yn rhoi sylw i lesiant mewn ffordd systematig.

2. Mae'r Amcanion Llesiant hyn wedi eu dewis gan roi sylw i adborth sylweddol yn sgil ymgynghori a llu o ffynonellau gwybodaeth gwahanol ynghylch angen, data perfformiad ac adborth rheoleiddiol. Wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn cynnwys pob math o bobl sydd â diddordeb yn eu cyflawni.

3. Bydd y camau a gymerwn i gyflawni'r Amcanion Llesiant (ein cynlluniau gweithredu) yn ceisio sicrhau y defnyddir cymaint ag sy'n bosibl ar ddulliau tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol.

4. Mae gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb penodol dros y Ddeddf yn gyffredinol. Hefyd bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n ddeiliad portffolio gyfrifoldeb dros yr Amcanion Llesiant perthnasol.

5. I sicrhau ein bod yn cymryd y camau gweithredu hyn byddwn yn defnyddio ein dangosfwrdd System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS), a ddatblygwyd yn fewnol. Caiff pob cynllun gweithredu ei fonitro ac adroddir yn ei gylch yn chwarterol i'r Timau Rheoli Adrannol, y Tîm Rheoli Corfforaethol, a'r Bwrdd Gweithredol. Hefyd adroddir ynghylch cynnydd i'r Pwyllgorau Craffu. Bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol am ei Amcanion Llesiant ac yn diwygio'r amcanion os bydd angen.

6. Caiff cynnwys y cynlluniau gweithredu, er mwyn cyflawni'r Amcanion Llesiant, ei ariannu'n ddigonol ac mae'n rhan annatod o gynlluniau busnes Gwasanaethau (gweler manylion ariannol Atodiad 2). I gyflawni'r amcanion hyn bydd gwasanaethau yn 'uno' ac yn cydweithio, yn gweithio gyda phartneriaid, ac yn cynnwys dinasyddion o bob math yn llawn.

7. Mae ein hamcanion yn rhai tymor hir ond bydd ein cynlluniau gweithredu yn cynnwys cerrig milltir a fydd yn galluogi monitro a sicrhau cynnydd.

8. I sicrhau bod modd cyflawni ein Hamcanion Llesiant ac i gyrraedd disgwyliadau'r Ddeddf, byddwn yn addasu trefniadau craffu, cynllunio ariannol, rheoli asedau, asesu risg, a rheoli perfformiad.

## Cyfamod Cymunedol

Wrth gyflawni'r Amcanion Llesiant hyn, byddwn yn cynnal egwyddorion y Cyfamod Cymunedol. Yr egwyddorion hyn yw:

- Na ddylai Cymuned y Lluoedd Arfog fod o dan anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a masnachol; a
- Bod ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig yn achos y rhai sydd wedi rhoi i'r eithaf, megis rhai sydd wedi'u hanafu neu wedi cael profedigaeth.

## Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol ledled Sir Gaerfyrddin i weithredu ar y cyd a sefydlu **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** statudol. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2016 ac mae ganddo'r dasg o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin. Rhaid iddo wneud hynny drwy gynnal asesiad o lesiant yn y Sir ac wedyn paratoi Cynllun Llesiant ar gyfer y sir i amlinellu ei amcanion lleol.

- Mae'r asesiad yn rhoi sylw i lesiant yn Sir Gaerfyrddin drwy wahanol adegau mewn bywyd. Gellir dod o hyd i'r prif ganfyddiadau drwy fynd i www.ysirgaragarem.cymru

- Rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n pennu ei amcanion lleol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y sir a'r camau mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant cyntaf Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2018 a gellir dod o hyd iddo yn www.ysirgaragarem.cymru

**Nid bwriad Amcanion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yw mynd i'r afael â'r gwasanaethau craidd a darpariaeth y partneriaid unigol, yn hytrach eu bwriad yw gwella ac ychwanegu gwerth drwy weithredu ar y cyd. Mae'n rhaid i bob un o bartneriaid statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Cyngor, Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Tân ac Achub, a Chyfoeth Naturiol Cymru) gyhoeddi eu Hamcanion Llesiant eu hunain**

Amcanion Llesiant drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yw:-

- **Arferion Iach**: pobl ag ansawdd bywyd da ac yn gwneud dewisiadau iach am eu bywydau a'r amgylchedd
- **Ymyrraeth Gynnar**: sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, fel y bo arnynt ei angen; pan fo'i angen arnynt
- **Cysylltiadau Cryf**: pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid
- **Pobl a Lleoedd Ffyniannus**: manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl a lleoedd yn rhannau trefol a gwledig ein sir

Mae cyfres o Grwpiau Cyflawni Amlasiantaethol wedi'u sefydlu erbyn hyn er mwyn gwneud cynnydd ar yr amcanion hyn a bydd adroddiadau rheolaidd yn cael eu monitro drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thrwy Bwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau y Cyngor. Yn ogystal â'r Grwpiau Cyflawni, mae Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin hefyd wedi cael ei adolygu ac mae blaenoriaethau a chynllun gweithredu newydd wedi'u nodi.

## Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Bydd y Cyngor, gan weithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn ymdrechu i wella'r mesurau canlynol.

| Amcan Llesiant | | Mesurau Llwyddiant |
|---|---|---|
| 1 | **Cychwyn Gorau mewn Bywyd** | Plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy *(PAM/029)* |
| 2 | **Plant – Ffyrdd iach o fyw** | Gordewdra yn ystod plentyndod *(Rhaglen Mesuriadau Plant y GIG)* |
| 3 | **Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr** | Cyrhaeddiad addysgol - Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio *(disgyblion Blwyddyn 11) (PAM/032) (9 canlyniad gorau'r disgyblion yn cynnwys Saesneg/Cymraeg, Mathemateg–Rhifedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth)* |
| | | Cyfraddau presenoldeb ysgolion (Cynradd) *(PAM/007)* (Uwchradd) *(PAM/008)* |
| | | Bodlonrwydd ar ysgol gynradd plentyn *(ACC)* |
| 4 | **Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (EET)** | Nifer y gadawyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs) *(PAM/009)* Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 *(5.1.0.2)* |
| 5 | **Trechu Tlodi** | Cyrhaeddiad addysgol - Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio (Disgyblion Blwyddyn 11) sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am ddim *(4.1.2.4) (DLIC)* *(9 canlyniad gorau disgyblion gan gynnwys Saesneg/Cymraeg, Mathemateg–Rhifedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth)* |
| | | Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd *(PAM/012) (DLIC)* |
| | | Aelwydydd ag amddifadedd sylweddol *(DLIC)* |
| | | Aelwydydd sy'n byw mewn Tlodi *(Data 'PayCheck' CACI)* |
| | | Oedolion sy'n gallu talu biliau ar amser heb unrhyw anawsterau *(ACC)* |
| 6 | **Creu Swyddi a Thwf** | Ffigurau cyflogaeth *(SYG – Arolwg Poblogaeth Blynyddol)* (DLIC) |
| | | Tâl wythnosol gros cyfartalog *(SYG – Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion)* |
| | | Nifer â chymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu'n uwch *(StatsCymru) (DLIC)* |
| | | Pobl yn fodlon neu'n lled fodlon ar eu swyddi *(ACC) (DLIC)* |
| 7 | **Tai Fforddiadwy** | Nifer y tai fforddiadwy yn y Sir *(7.3.2.24)* |
| 8 | **Bywydau Iach** | Oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn *(ACC)* |
| | | Oedolion sy'n dweud bod ganddynt salwch hirdymor *(ACC)* |
| | | Sgôr llesiant meddwl oedolion *(ACC)* (DLIC) |
| | | Oedolion sydd â llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach *(ACC) (DLIC)* (Dim yn ysmygu, yfed > 14 uned neu lai, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau a llysiau'r diwrnod blaenorol, mynegai màs y corff, yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 o funudau yr wythnos flaenorol). |

| Amcan Llesiant | | Mesurau Llwyddiant |
|---|---|---|
| 9 | Cefnogi Cysylltiadau Da | % sy'n dweud bod ganddynt ymdeimlad o gymuned *(ACC) (DLIC)*<br>(Deillio o'r teimlad o berthyn; gwahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, trin â pharch.) |
| | | Pobl yn teimlo'n ddiogel *(ACC) (DLIC)*<br>(Yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a theithio) |
| 10 | Bywydau Annibynnol | Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth aros i gael gofal cymdeithasol *(PAM/025)* |
| | | Cytuno bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal *(ACC)* |
| | | Nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl *(PAM/015)* |
| 11 | Heneiddio'n dda | Pobl sy'n unig *(ACC) (DLIC)* |
| 12 | Amgylchedd Iach a Diogel | Defnydd o ynni adnewyddadwy |
| | | Cyfraddau ailgylchu *(PAM/030)* |
| 13 | Priffyrdd a Thrafnidiaeth | Cyflwr y ffyrdd *(PAM/020, PAM/021 a PAM/022)* |
| | | Nifer a laddwyd/anafwyd mewn damweiniau ar y ffyrdd *(5.5.2.21)* |
| 14 | Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | Medru siarad Cymraeg *(ACC) (DLIC)* |
| | | Disgyblion yn cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen *(PAM/033)* |
| | | Pobl a fu mewn digwyddiadau ym maes y celfyddydau yng Nghymru y llynedd *(ACC)* |
| | | Pobl a wnaeth ymweld â lleoedd hanesyddol yng Nghymru y llynedd *(ACC)* |
| | | Pobl a wnaeth ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru y llynedd *(ACC)* |
| 15 | Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau | Taliadau *'Ar-lein Amdani'* |
| | | Pobl yn cytuno y gallant gyrchu gwybodaeth am yr Awdurdod yn y ffordd y byddent yn ei dymuno. *(ACC)* |
| | | Pobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu *(ACC)* |
| | | Pobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhedeg gwasanaethau'r awdurdod lleol. *(ACC)* |
| | | Lefelau absenoldeb oherwydd salwch staff *(PAM/001)* |
| | | 'Costau cynnal' y sefydliad |
| | | Pobl yn cytuno bod y Cyngor yn gofyn am eu barn cyn pennu ei gyllideb. *(ACC)* |

***Allwedd**: PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol; SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol; ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru; DLlC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol*

Un o'r dulliau sylfaenol a argymhellir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw newid ffocws o'r cynnydd o ran allbwn gwasanaeth i gyswllt cryfach rhwng gweithredoedd cyrff cyhoeddus a'r canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i seilio ar Atebolrwydd ar Sail Canlyniad, sy'n annog canolbwyntio ar y gwahaniaeth a wneir, yn hytrach na'r mewnbynnau a'r prosesau'n unig sydd gan sefydliad. Mae llwyddiant yng nghyd-destun y Ddeddf hon yn rhoi bod i gamau cadarnhaol sy'n ysgogi cyfraniad cadarnhaol at gyflawni'r amcanion llesiant drwy gamau unigol neu ar y cyd. *(Paragraff 9 SPF2 – Canllawiau Statudol)*

**Byddem yn croesawu adborth gennych - anfonwch eich sylwadau a'ch safbwyntiau atom i:**

**Rheoli Perfformiad**
Adfywio a Pholisi
Y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Ffôn: **01267 224486**
E-bost: **perfformiad@sirgar.gov.uk**

Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen **Facebook y Cyngor**

Dilynwch y cynllun hwn ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein tudalen **Twitter - #AdroddiadSirGar**